www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO’r Wyddfa

£1
RHIF 523
Mai
2024



# Dyfodol fferm yn destun sioe

Mae dyfodol fferm Llyndy Isaf yn Nant Gwynant am fod yn destun cyfres deledu sy’n cael ei ffilmio ar gyfer y darlledwr Channel 4. Bydd ail gyfres *Our Dream Farm with Matt Baker* yn dilyn hanes 7 ymgeisydd yn cystadlu i ennill tenantiaeth Llyndy Isaf.

Fferm fynyddig 613 acer ydi Llyndy Isaf, ac mae hi wedi bod o dan ofal Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru ers i’r elusen brynu’r fferm yn 2012 wedi ymgyrch gyhoeddus lwyddiannus, gyda dros 20,000 o bobl yn cyfrannu tuag at apêl £1 miliwn dan arweiniad yr actor Matthew Rhys. Rhwng 2012 a 2020 roedd yn cael ei chynnal mewn partneriaeth â Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, a rhoddwyd ysgoloriaethau i bump ysgolhaig i reoli’r fferm, gan ddechrau efo tenantiaeth blwyddyn, cyn ei godi i dair mlynedd.

Rhoddwyd gorau i’r drefn honno er mwyn “achub cronfeydd elusennol”, ac ers 2020 mae’r fferm yn ôl o dan ofalaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn cael ei rheoli ar y cyd â’u fferm gyfagos, Hafod y Llan.

Mae’r Ymddiriedolaeth rŵan am gynnig tenantiaeth 15 mlynedd, ac yn chwilio am unigolyn neu bartneriaeth i ymgymryd â’r sialens. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y gallai “unrhyw un wneud cais ar gyfer ein heiddo ar osod yng Nghymru a thu hwnt” ac nad ydynt yn gwahaniaethu yn ôl “oed, hil, rhywedd, cenedligrwydd nag iaith rhywun”.

Ond, byddai’n rhaid i unrhyw ymgeisydd gytuno i gael eu ffilmio ar gyfer y gyfres deledu.

Mae rhai o’r farn y dylai’r Ymddiriedolaeth fod yn gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr lleol yn gyntaf, a phetai’r broses honno’n aflwyddiannus yna y gellir wedyn agor y ‘gystadleuaeth’ yn ehangach drwy’r gyfres deledu. Nid pawb sydd eisiau cymryd rhan mewn sioe deledu, wedi’r cwbl.

Meddai Trystan Edwards, Rheolwr Cyffredinol Eryri, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, “Ein tenant delfrydol fyddai rhywun sy’n gwybod sut i redeg busnes llwyddiannus, dichonadwy a phroffidiol ond wrth wneud hynny’n gallu cyflawni ar gyfer yr amgylchedd drwy gyfuno egwyddorion rheoli tir a chadwraeth sensitif gydag amaethyddiaeth.”

Mae’r dyddiad cau i ymgeisio i fod yn rhan o’r gyfres deledu bellach wedi cau ers 21ain Ebrill, ond bydd yr ymgeiswyr sy’n cael gwâdd i fod ar y gyfres yn cael gwybod ar ddechrau Mai. Caiff popeth ei ffilmio yn ystod misoedd Medi a Hydref, gyda’r ymgeiswyr yn gorfod profi eu gallu drwy wneud nifer o dasgau yn ymwneud â ffermio. Bydd pethau’n symud yn gyflym wedyn, gyda’r tenant llwyddiannus yn dechrau ar eu gwaith fis Tachwedd.

Os hoffech ddarllen rhagor am y broses, ewch i farmapplication.co.uk. Mi fydd yr *Eco* yn dilyn yr hanes, felly dewch yn ôl i glywed pryd y cawn ddilyn y gyfres a gweld pwy yw’r ymgeiswyr.

## Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi’n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



## Yn y rhifyn hwn:


- CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO – 9fed Mai, yn Ystafell Gymuned Penisarwaun am 7pm - tud 2
- Penisarwaun - Arddangosfa hen luniau a harddu’r gerddi - tud 6
- Am Dro…i Lanrug - tud 21
- Lawns llyfr yr artist Glyn Price - tud 21
- Holi Hwn a Holi Hon: Leusa Llewelyn - tud 22
- Dion yw Pencampwr Nofio Cymru - tud 32


6




21



## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

### GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant:**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

## Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa 2024

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yr Eco yn Ystafell Gymuned Penisarwaun (yn yr ysgol) ar nos Iau, 9fed Mai am 7.00pm

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod hwn. Dyma'ch cyfle i leisio eich barn am yr Eco a chynnig gwelliannau i'r dyfodol.

Croeso cynnes i bawb.



## Llythyr Panel Golygyddol

Gobeithio gawsoch chi i gyd Basg hapus a dedwydd.

Diolch i bawb sydd eisoes wedi talu am yr Eco am y 12 mis nesaf. Diolch hefyd i bawb sydd yn anfon deunydd i'r Eco yn fisol a thrwy gydol y flwyddyn. Daliwch ati! Cofiwch bod croeso i bawb anfon eu newyddion at eu gohebydd pentref neu atom ni yn uniongyrchol at ecorwyddfa@gmail.com


Hoffai'r Panel Golygyddol wneud apêl daer ar gyfer rhywun i lenwi'r swydd o Drefnydd Ariannol. Mae Gorowny wedi nodi ers tro, oherwydd amryw resymau, ei fod am ymddeol, felly mae angen rhywun i gamu i'r swydd ar fyrder.

Mae croeso mawr i chi gysylltu efo Goronwy os hoffech mwy o wybodaeth am ofynion y swydd, drwy ffonio - 01286 674839.

Heb swyddogion ni all yr Eco gario 'mlaen.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth.

***Y Panel Golygyddol***




## Dewch i Gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf

Mae'r dyddiad cau er mwyn i chi gofrestru i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn prysur agosau. O'r traddodiadol i'r cyfoes, ac o'r cystadlaethau unigol i'r cystadlaethau torfol, mae 'na rhywbeth at ddant pawb.

Bydd angen i bawb sy'n bwriadu cystadlu yn unrhyw un o'r cystadlaethau, boed yn unigolyn neu grŵp neu gôr, fod wedi gwneud hynny **erbyn 23:59 ar ddydd Mercher 1 Mai**.

Mae'r cystadlaethau wedi eu rhannu i'r categoriau canlynol: Bandiau Prês, Cerdd Dant, Cerddoriaeth, Dawns (Cyfoes a Gwerin), Maes D (Llwyfan), Llefaru, Theatr.

Er mwyn cofrestru bydd angen i chi fynd i wefan yr Eisteddfod Genedlaethol – https://eisteddfod.cymru/yrwyl/2024/cystadlu

## Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

Rhodd £10 – Di-enw Llanrug

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mehefin | 10 Mai | 24 Mai |
| Gorffennaf | 14 Mehefin | 28 Mehefin |
| Awst a Medi | 12 Gorffennaf | 26 Gorffennaf |

## Yn ystod y mis a aeth heibio…

- **Cofid.** Datgelwyd fod dyn 62 mlwydd oed o'r Almaen wedi cael ei frechu 217 o weithiau mewn 29 mis i'w arbed rhag yr afiechyd. Nid yw'n ymddangos ei fod wedi dioddef unrhyw sgil-effeithiau.
- **Cath.** Mae cerflun wedi ei ddad-orchuddio ym Mhrifysgol Essex i anrhydeddu cath ddu a gwyn sydd wedi byw ar y safle ers 16 mlynedd. Mae'n cael ei hadnabod gan bawb fel 'Campus Cat'.
- **Morgais.** Yn ystod 2023 roedd nifer y morgeisi i bobl yn symud tŷ ar ei isaf ers 1974 – 26% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.
- **Siocled.** Cwmni Cadbury, a sefydlwyd yn Birmingham, yn dathlu ei ben-blwydd yn 200 oed.
- **Rhino.** Yn Sŵ Whipsnade, ganwyd Rhino Gwyn Deheuol, rhan o gynllun traws-Ewrop i achub y math prin sydd a dim ond 10,000 ar ôl yn y gwyllt.
- **Cwrel.** Mae pryder am effaith y dŵr cynnes ar y Bariff Mawr yn y môr i'r gogledd-ddwyrain o Awstralia. Yn ôl gwyddonwyr ym Mhrifysgol James Cook, mae gor-gynhesu'r dŵr yn golygu fod y cwrel yn cael gwared a'r algae sy'n byw o'u mewn, a hynny'n golygu eu bod yn colli eu lliw, ac yn gwynnu. Mae'r Bariff Mawr wedi dioddef pum achos enfawr o wynnu yn yr wyth mlynedd diwethaf.
- **Bugeiles**. Credir mai Marina Vilalta yw'r fugeiles hynaf yn y byd – yn 96 mlwydd oed. Mae'n byw yn y mynyddoedd yn Catalonia, ar y terfyn rhwng Ffrainc a Sbaen. Mae ffermio defaid yn yr ardal wedi dirywio'n sylweddol, ond mae Marina yn dal ati. Enillodd Groes Sant Jodi, anrhydedd mwyaf Catalonia, am ei chyfraniad oes i gadw traddodiadau a diwylliant gwledig yn fyw. Gwrthododd Marina fynd i Barcelona i dderbyn yr anrhydedd, a bu'n rhaid i'r Arlywydd deithio i'w fferm fynyddig i'w hurddo.
- **Tywod-fyrddio.** Rhwng Diffeithdir Namib a Môr yr Iwerydd, mae tref lan y môr Swakopmund yn elwa o fath newydd o anturiaeth. Wedi tair blynedd o gloi yn dilyn Cofid, mae ymwelwyr yn heidio'n ôl i'r dref – a'r demtasiwn o gael hyfforddiant ar sut i dywod-fyrddio ar rai o dwyni tywod mwyaf ac uchaf deheudir Affrica. Mae'n bosib cyrraedd cyflymder o 50 milltir yr awr mewn rhai safleoedd; yn sefyll neu'n gorwedd ar fyrddau llyfn. Mae'r diwydiant newydd yn cynnig nifer helaeth o swyddi amrywiol i'r trigolion lleol.
- **Priodas.** Mae nifer y priodasau yn China wedi cynyddu'n sylweddol y llynedd: 7,680,000 – sef 12% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r llywodraeth yn ei groesawu, yn y gobaith y caiff mwy o blant eu geni. Mae poblogaeth bresennol y wlad yn heneiddio'n gyflym.
- **Amgueddfa.** Yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain a ddenodd fwyaf o ymwelwyr yn ystod 2023, gyda bron i 5.9 miliwn o bobl yn croesi'r trothwy.
- **Gwastraff.** Mae llond 8 miliwn basged siopa o ffrwythau a llysiau yn cael eu gwastraffu yng ngwledydd Prydain bob blwyddyn yn ôl adroddiad gan fudiad 'LoveFoodHateWaste'. Amcangyfrifir fod £17 biliwn yn cael ei wario ar fwyd sy'n diweddu yn ein biniau.
- **Wyau Pasg.** Dros y gwyliau roedd cynllun yn Ne Affrica yn cynnig i gwsmeriaid brynu wyau pengwin yn hytrach na rhai siocled – ond doedd neb yn cael ŵy. Cynllun oedd hwn i gasglu arian tuag at ddiogelu Pengwin Affrica. Mae llai na 10,000 o barau ar ôl yn y gwyllt – 1% yn unig o'r niferoedd oedd yn bodoli ganrif yn ôl. Mae'r wyau yn cymryd 4 mis i ddeor.
- **Meter Clyfar**. Yn ôl adroddiad gan Adran Ynni y Llywodraeth, nid yw'r rhain mor glyfar a hynny, gyda 3.98 miliwn yn rhoi darlleniadau anghywir.
- **Cyflog.** Mae Prif Weithredwr Centrica, y cwmni sy'n berchen British Gas wedi derbyn £8.2 miliwn o gyflog yn 2023; dwbl ei gyflog yn y flwyddyn flaenorol. O na bai cyflogau gweithwyr cyffredin yn cynyddu ar y fath raddfa.


Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
MCEA
Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs


## 'Y Lein'

I'r rhai na chafodd y cyfle i wylio'r ffilm ddogfen yn y Galeri yng Nghaernarfon yn gynharach eleni, braf oedd gweld S4C yn darlledu'r rhaglen ganol fis Ebrill. Roedd yn rhoi cyfle i Gymry ben-baladr gael eu hatgoffa o ymroddiad a dyfalbarhad di-ildio y gweithwyr rheini a fu ar streic yn hytrach na phlygu glin i berchennog oedd yn fwy nodweddiadol o dirfeddianwyr yr oes o'r blaen yn y modd roedd yn cam-drin ei weithwyr. Mae ein diolch yn fawr i bob un a fu'n gysylltiedig â dod a'r hanes trist ond arwrol hwn i'n sylw.

Bymtheng mlynedd yn ôl roedd sôn fod y ffatri wâg i'w chwalu, a charchar i'w adeiladu ar y safle. Ddigwyddodd hynny ddim wrth gwrs, a segur yw'r safle'n dal i fod. Gyda'r bygythiad o garchar yn cael ei sefydlu ar lannau'r Fenai ysgrifennais y canlynol:

### *Y Gofgolofn*

Cyn chwalu'r ffatri segur
Sy' ar lannau'r Fenai'n fud;
Cyn ail-gyfeirio llafur
I godi carchar drud;
Cyn i chwi lwyr waredu
Sawl briw a chlais a chraith;
Cyn i chwi orffen carthu
Budreddi yr hen waith;
Cyn claddu'r gwenwyn oedd'no
A glasu anial dir;
Cyn llyfnu a thirlunio
I'w droi yn werddon îr;
Rhowch wrth y brif fynedfa
Un golofn dalsyth, fain,
Ac arni naddwch enwa'
Y gweithlu i gyd yn gain
I gofio gwerin Arfon
A heriodd drais a stremp,
A mynnu nad aent gaethion
I gyfalafiaeth rhemp.

**Dafydd Whiteside Thomas**




Premier
SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.



ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# DEINIOLEN

**Profedigaeth**

Yn dawel yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon a gynt o 17 Rhydfadog, Deiniolen, bu farw Meira Rowlands yn 93 mlwydd oed.

Priod annwyl y diweddar Arthur. Mam gariadus Kevin a Wendy a mam yng nghyfraith Eleanor a Dylan. Nain arbennig Rachel, Gethin, Ffion, Sioned, Harri a'r ddiweddar Kathryn a hen nain Jayden, Logan a Talia. Chwaer annwyl y ddiweddar Bet. Estynwn ein cydymdeimlad at yr holl deulu.

Pob cydymdeimlad i deulu'r diweddar Mark Thomas, 35 Rhydfadog, Deiniolen a fu farw yn 54 oed. Mab annwyl Fred a Gloria a brawd cariadus Paul, Debbie, Beverly a Barry John. Mi fydd colled mawr i'w deulu a'i holl ffrindiau.

**Diolchiadau**

Dymuna Barry, Malcolm, Carolyn a Hilary ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a Hen Nain annwyl ac arbennig. Hunodd ein Mam yn sydyn ar yr 11eg Chwefror 2024.

Dymunwn hefyd ddiolch i'r Canon Robert Townsend am y gwasanaeth yn Eglwys Crist Llandinorwig. Diolch i staff Ward Prysor a staff Uned Argyfwng Ysbyty Gwynedd am y gofal arbennig. Diolch hefyd i E W Pritchard, Llanberis am y cymorth gyda threfniadau'r cynhebrwng.

Gwerthfawrogwyd yr holl ymweliadau gan deulu, ffrindiau a chymdogion oll. Diolch enfawr am yr holl gardiau a rhoddion hynod o hael a gyflwynwyd i'r teulu mewn cydymdeimlad ac er cof am ein Mam Kathleen.

Bydd y rhoddion er cof am ein Mam yn cael ei gyflwyno i Eglwys Crist Llandinorwig ac i Ward Prysor, Ysbyty Gwynedd.

Diolch o waelod calon i bawb. Calon Lân yn llawn cariad. Caiff ein Mam nawr orffwys mewn hedd gyda Gordon ein Tad ac ein brawd Roy.

**Adroddiad gan y Cynghorydd Elfed Williams**

Problemau Allt Ddu -

Ddim yn rhy bell yn ôl cefais gyfarfod â phobl Dinorwig dros Zoom, ac roedd rhai o swyddogion y Cyngor hefyd yn bresennol. Dau bwnc gafodd ei drafod ar y noson, sef llinellau melyn a maes parcio yn Allt Ddu.

Fe gafodd y ddau syniad ei wrthod yn bendant gan pobl ardal Allt Ddu a Dinorwig. Yn ôl y Cyngor ar y pryd, fe wnaeth dros 200 o bobl wrthwynebu y llinellau melyn dwbl.

Ar ôl problemau yn yr Allt Ddu dros y penwythnos, cysylltodd swyddfa Hywel Williams efo fi. Ella byddai cyfarfod cyhoeddus yn Dinorwig yn helpu i ddod â phobl at ei gilydd, gan hefyd ofyn i swyddogion y cyngor fod yn bresennol?



**Merched y Wawr**

Fel y gwelwch yn y llun, fe wnaeth ein cangen o Ferched y Wawr fwynhau dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Y Felin, Pontrug, nôl ym mis Mawrth.



**Helfa Ŵy Pasg**

Cafwyd ddiwrnod Helfa Ŵy Pasg llwyddiannus iawn yn Neiniolen ddiwedd Mawrth, wedi ei drefnu gan y Pwyllgor Pentra. Daeth yr haul allan o'r diwedd a daeth pawb allan i gefnogi a chael hwyl. 37 o blant gymrodd ran, gwych, da iawn chi i gyd.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch am gefnogaeth y Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, i Wayne Owen a Sophie Williams am brynu'r wyau Pasg, i Sue ac Aled o gwmni Dafydd Hardy am brynu'r ŵy mawr i'r enillydd ac i Gwawr am ddarparu'r deunyddiau celf i wneud cardiau Pasg.

Diolch arbennig i'n gwirfoddolwyr am baratoi a threfnu'r helfa drysor ac am roi eich amser heddiw. Rydych i gyd yn drysor ac rydym yn eich gwerthfawrogi'n fawr.

Diolch i bawb ddaeth allan, does dim pentref tebyg i Ddeiniolen am gefnogi. Hyfryd gweld pawb, diolch i chi.













**Clwb Pêl-droed Deiniolen**

Mae'r tîm pêl-droed o dan 12 oed yn chwilio am chwaraewyr newydd er mwyn ehangu'r sgwad. Os oes gennych chi ddiddordeb cysylltwch drwy ebost - cpddeiniolen2019@outlook.com

Yn y llun fe welwch tîm pêl-droed ieuenctid Deiniolen yn derbyn rhodd o offer ymarfer pêl-droed gan Sian Gwenllian AS, Plaid Cymru Arfon. Cafodd y plant hefyd rodd o hetiau gan Warws werdd Antur Waunfawr.

**Gŵyl Deiniolen, 9fed - 15fed Mehefin**

Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal eleni o'r 9fed hyd at y 15fed o Fehefin. Cadwch olwg ar wefan cymdeithasol yr wyl am fwy o fanylion.

Mae'r Frenhines a'i chwrt wedi eu dewis yn barod, fel y gwelwch yn y llun.

Brenhines - Ela Tate
Tywysoges - Elsa Pleming
Morwyn Flodau - Megan Hughes
Gwas - Iago Tate




# TEYRNGED ZONIA BOWEN



Ar 18fed o Fawrth, ychydig dros fis cyn ei phen-blwydd yn 98 oed bu farw Mrs Zonia Bowen, Stad Glan-dŵr, Caeathro. Gynt o Dal-y-llyn, Meirionnydd, symudodd i Gaeathro yn 1991 gyda'i gŵr, y diweddar Cyn-Archdderwydd Dr Geraint Bowen.

Mae Zonia Bowen yn fwyaf adnabyddus fel sylfaenydd Merched y Wawr yn 1967, tra roedd yn byw gyda'i theulu yn Y Parc ger Y Bala. Wedi i swyddogion cenedlaethol Sefydliad y Merched (W.I) wrthod iddynt weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg, penderfynodd gangen Y Parc, o dan arweiniad Zonia Bowen, ffurfio mudiad cyfrwng Cymraeg i ferched Cymru. Buan iawn yr ymledodd y mudiad gyda changhennau yn codi ymhob cwr o Gymru o fewn dim o dro. Hi oedd ysgrifennydd cyntaf y mudiad a golygydd cyntaf cylchgrawn Y Wawr. Bu'n Llywydd Anrhydeddus ar y mudiad cyn ymddiswyddo yn 1976 oherwydd ei gwrthwynebiad fod rhai aelodau yn ceisio defnyddio llwyfan y mudiad i hyrwyddo Cristnogaeth, a oedd yn mynd yn erbyn egwyddor y mudiad o fod "ar agor i bawb ar yr un termau".

Cafodd Zonia Bowen ei geni yn Norfolk a'i magu yn Swydd Efrog cyn symud i Brifysgol Bangor yn 1943 i astudio Ffrangeg a Saesneg. Oherwydd fod ei ffrindiau yno yn Gymry Cymraeg, penderfynodd ddysgu'r iaith fel ei bod yn gallu ymuno i mewn yn llawn. Wedi iddi gymhwyso fel athrawes, dechreuodd ei gyrfa a bywyd priodasol yn ardal Wrecsam cyn symud i Gaerdydd, Y Parc ac yna i Dal-y-llyn, Meirionnydd. Tra'n Nhal-y-llyn bu Zonia a Geraint yn weithgar yn y gwrthwynebiad i gladdu gwastraff niwcliar yn yr ardal gan sefydlu y grŵp ymgyrchu MADRYN.

Hoffai deithio'r byd ac ymwelodd â phob cyfandir. Ymddiddorodd yn niwylliant, traddodiadau a ieithoedd gwahanol yn enwedig rhai'r gwledydd Celtaidd. Roedd ei rhuglder o'r Gymraeg a'r Ffrangeg wedi ei harwain i ddysgu Llydaweg. Gwnaeth lawer o ffrindiau yn Llydaw a bu ei chysylltiadau Celtaidd yn werthfawr wrth iddi gynorthwyo'r rhaglen o efeillio tref Dolgellau gyda Gwennran (Guérande) yn Llydaw. Roedd ar bwyllgor trefnu Gŵyl Werin Geltaidd Dolgellau a phwyllgor Cymru yr Ŵyl Ban Geltaidd a oedd yn dewis cân i gynrychioli Cymru yn yr ŵyl, a esblygodd i'r hyn yr ydym ni yn ei adnabod, yn Gân i Gymru. Ysgrifennodd lyfr dysgu Llydaweg drwy'r Gymraeg, *Llydaweg i'r Cymro*, llyfr o ymadroddion Llydaweg/Cymraeg *Iechyd Mat Iechyd Da* a llyfr ar Hanes Gorsedd Llydaw. Cafodd ei hurddo er anrhydedd i'r Orsedd yn 1981 am ei chyfraniad i Gymru yr iaith Gymraeg a hyrwyddo'r cysylltiadau Celtaidd. Cyd-ysgrifennodd *Hanes Gorsedd y Beirdd* (Cyhoeddiadau Barddas) gyda'i gŵr, Dr Geraint Bowen.

Ystyriai Zonia Bowen ei hun yn ddi-grefydd neu rhydd-feddyliwr a bu'n weithgar gyda Dyneiddwyr Cymru; ysgrifennodd lyfryn am Ddyneiddiaeth, *Traed ar y Ddaear*, at ddefnydd gwersi Addysg Grefyddol ysgolion a bu'n cydlynu seremoniau priodas ac angladdau di-grefydd. Ond er ei hymroddiad a'i hangerdd at ei daliadau ac egwyddorion, nid oedd yn mwynhau bod yn berson cyhoeddus. Yn ei hunangofiant a gyhoeddwyd gan Wasg Y Lolfa ym 2015 *'Dy bobl di fydd fy mhobl i' Atgofion Saesnes yng Nghymru*, mae'n nodi taw atgofion o fod yn blentyn poenus o swil oedd ganddi, er i hynny leddfu ychydig wrth fynd yn hŷn.

Ymddiddorodd mewn celf, gwaith llaw a cherddoriaeth ac ymfalchiai yn llwyddiant ei hwyrion yn y byd canu roc a gwerin. Ei hwyr yw'r canwr gwerin Gwilym Bowen Rhys sydd hefyd yn canu gyda'i chwiorydd, Elan Rhys a Marged Rhys, yn y band gwerin Plu. Roedd ei hwyrion Tomos Owens a Siôn Owens, ynghyd â Gwilym, yn aelodau o'r grŵp Y Bandana.

Treuliodd fisoedd olaf ei bywyd yng nghartref preswyl Plas Gwilym, Penygroes.



**BYSUS RHIWLAS**
**BYSUS BACH A MAWR**
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa | Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

**Gardd Gymunedol ger Llys y Gwynt**

Ar ôl plannu bylbiau ym Mhenisarwaun llynedd, mae criw bach ohonom nawr yn awyddus i ddefnyddio'r tir drws nesa i Llys y Gwynt. Mae Adra wedi cytuno y gellir ei ddefnyddio fel man cymunedol ac rydym yn awyddus i greu gofod ymlaciol y gellir ei ddefnyddio gan bawb. Mae'r prosiect wedi cychwyn gyda phlannu coed ffrwythau, gosod meinciau a chlirio ychydig o'r ardal.

Rydym angen mwy o bobol i gymryd rhan, rhannu syniadau, egni, gwybodaeth a pharodrwydd i helpu gyda'r gwaith plis - Cysylltwch hefo Stephen Wilson, Angharad Owen neu Katy Williams am fwy o wybodaeth. Bydd y gwaith yn parhau dros yr haf, a byddwn yn dod at ein gilydd bob dydd Mercher am 5.30yh. Mae croeso mawr i bawb sydd awydd ymuno â ni.










**Eisteddfod Bentref 2024**

Cynhelir yr Eisteddfod nos Fercher, 17eg Gorffennaf am 6.00pm yn Neuadd Gymuned y pentref. Hyderir y ceir yr un gefnogaeth gref ac a gawsom llynedd. Bu cystadlu brwd o'r oedran cyn-ysgol i'r oedolion. Bydd ymarferion canu a llefaru yn cychwyn ar nosweithiau Mercher yn y Neuadd Gymuned am 6.00pm. Dewch i ymuno yn y cymdeithasu.

Dymunir llongyfarch Ifan Miners, Prif Lenor Eisteddfod 2023 am gael ei ddewis gan Gwmni Theatr y Frân Wen i actio yn yr addasiad llwyfan o'r gyfres deledu boblogaidd i blant "Deian a Loli - Ribidires Olaf". Bydd Ifan a Casi Williams o Frynteg yn chwarae rhannau Deian a Loli am yn ail â Jac Thomas Humphries o Danygrisiau a Gweni Roberts o Lithfaen, rhwng 30ain Ebrill a 8fed Mehefin. Yn ystod ei sgwrs ar raglen Aled Huws roedd Ifan yn gwerthfawrogi'r cyfleon a brofodd i fagu hyder yn yr Ysgol Sul, yr Ysgol Gymuned ac Ysgol Uwchradd Brynrefail ac wrth gwrs yn ein Heisteddfod flynyddol. Pob lwc i ti Ifan a mwynha'r profiad.

Pob lwc hefyd i Myfi, Winllan, yng nghystadleuaeth offerynnol yn Eisteddfod yr Urdd ym Maldwyn - un arall sy'n elwa o gystadlu brwd yn ein Heisteddfod Bentref.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gydag Eluned Jones a theulu Cae Corniog Mawr yn eu profedigaeth o golli brawd ac Yncl yn Abergele.

**Gwellhâd**

Gyda dyfodiad y gwanwyn i godi'n calonnau, anfonir ein cofion anwylaf at bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned y Pentref**

Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr yw:

1af - Myfi, Winllan
2il - Carol Porter, Bron y Waen

Mis Mai edrychir ymlaen at ddod at ein gilydd eto ar gyfer hwyl a sbri 'Miri Mai' yn y Neuadd Gymuned gyda chyfle i'r plant gael paratoi gemau a byrddau gwerthu ac yna yr hwyl o rasus ar gaeau'r Ysgol i'r gwahanol oedrannau gan gynnwys oedolion! Bydd cyfle i gael paned a chlonc ar y diwedd. Hysbysebir dyddiad Miri Mai ar Radio Cymru, grwp Facebook y pentref a thrwy e-bost i deulu bob plentyn.

**Sesiynau Dawns Haf Hudoliaeth**

Bydd y sesiynau dawns poblogaidd yn ail-gychwyn ar y 6ed o Fai yn Y Festri, ac yn parhau bob nos Lun tan yr 2il Awst.

Blwyddyn Derbyn ac 1 a 2: 3.45-4.30pm
Blynyddoedd 3 & 4: 4.30-5.30pm
Blynyddoedd 5 & 6:5.30-6.30pm
Uwchradd: 6.30-7.30pm.

Am fwy o fanylion ac i gofrestru, cysylltwch â Chloe - 07572 414616 neu Iola - 07478 720143.

**Eglwys Santes Helen**

Gwasanaeth 28ain Ebrill 11.00am Yr Offeren Sanctaidd

Gwasanaethau Mai
5ed Mai, 11.00am - Boreol Weddi.
12fed Mai, 11.00am - Yr Offeren Sanctaidd.
19eg Mai, 3.00pm - Gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Cyfle i groesawu y Ganon Naomi Starkey fydd yn dechrau ar ei gwaith fel ficer ac arweinydd newydd Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri.

26ain Mai, 11.00am - Yr Offeren Sanctaidd.

**Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen**

5ed Mai, 3.00pm - Yr Offeren Sanctaidd.




**Noson Hen Luniau**

Cofiwch am y noson hen luniau a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys ar nos Fawrth 30ain o Ebrill am 7.00pm. Mynediad am ddim, ond croesawir cyfraniad tuag at waith cynnal a chadw y Neuadd. Os oes gennych hen luniau o'r pentref a'r ardal ac yn hapus iddynt gael eu harddangos, gofynnir yn garedig am eu benthyg - gallwch eu rhoi i Rhiannon, Cwm Malwen neu Christine, Commercial Cottage. Croeso cynnes i bawb ar y noson.





## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 12fed o Fai, bydd Oedfa'r Ofalaeth yn cael ei chynnal yng Nghapel Jerusalem, Bethesda am 10.00am dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths. Ar y 19eg o Fai, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Iwan Llywelyn Jones i gychwyn am 2.00pm.

**Diolch**
Dymuna Evena Hughes (7 Erw Wen) ddiolch i bawb fu mor garedig tuag ati yn ystod ei dathliadau pen-blwydd yn ddiweddar.

**Teyrnged i'r diweddar Zonia Bowen**
Yn dawel ar 18fed o Fawrth, yng nghartref preswyl Plas Gwilym, Penygroes, bu farw Mrs Zonia Bowen o Cefn Coed, Stad Glan Dŵr, Caeathro, yn 97 oed. Mae Zonia Bowen yn fwyaf adnabyddus fel sylfeynydd Merched y Wawr yn 1967 pan oedd yn byw yn Y Parc ger Y Bala. Symudodd i Gaeathro o Dal-y-llyn, Meirionnydd yn 1991 gyda'i phriod, y diweddar Cyn-Archdderwydd Dr Geraint Bowen. Dymuna'r teulu ddiolch o galon i staff Plas Gwilym am eu gofal tyner o Zonia ac hefyd i'w chymdogion yn Stâd Glan Dŵr am eu cyfeillgarwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd angladd breifat i'r teulu ar 3ydd Ebrill.

**Mis Ebrill**
Cynhaliwyd cyfarfod y Clwb Garddio ar y 9fed o Ebrill. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Rhiannon Owen.

Treuliwyd y prynhawn yng nghwmni Bethan Moseley, Nebo. Ecolegydd yw Bethan a chawsom glywed am un o'r prosiectau diweddar y bu'n gweithio arno. Tra roedd y Bont Dyfi newydd yn cael ei adeiladu, bu'n sicrhau nad oedd y gwaith yn effeithio bywyd gwyllt yr ardal.

Mae Bethan hefyd yn gwirfoddoli gyda Grŵp Ystlumod Gwynedd. Maent yn cynnal arolygon ac yn cadw golwg ar y poblogaethau ystlumod lleol. Gallent hefyd gynnig gwybodaeth a chyngor ar sut i warchod ystlumod.

Yn ystod yr ail hanner o'r sgwrs, bu Bethan yn sôn am sut y gellid defnyddio ffrwythau a blodau megis ysgawen, draenen wen ac egroes i wneud diodydd. Cawsom flasu diod ysgawen a hefyd te wedi ei wneud ar ôl sychu'r blodau.

Diolchwyd i Bethan am sgwrs hynod o ddifyr gan y Cadeirydd.

Rhannwyd gwybodaeth am drip y Clwb i RHS Bridgewater, Salford ar ddydd Sadwrn 15fed o Fehefin. Mae lle ar y bws os hoffech ymuno gyda ni. Gellir cael gwybodaeth bellach trwy gysylltu gyda'r Ysgrifennydd trwy e-bost watkin495@btinternet.com neu ffôn 07799026791.

**Croeso**
Croeso cynnes i Colin a Gwyneth i'r pentref. Maent wedi symud i Cefn Coed, Stad Glan Dŵr yn ddiweddar.

**Clwb Cinio**
Ar ddiwedd cyfnod o ddeng wythnos o giniawa yn y Capel bob dydd Gwener, dymuna oedolion hŷn Caeathro ddiolch yn gynnes iawn i Age Cymru ac i'n cynghorydd Menna Trenholme am drefnu'r fenter. Cafwyd prydau blasus a chwmniaeth ddifyr yn ystod misoedd oer y Gaeaf. Ar y 11eg o Fawrth, cyflwynwyd planhigion a thocyn anrheg i Menna i ddangos gwerthfawrogiad.

**Clwb Garddio**
**Mis Mawrth**
Cynhaliwyd ein cyfarfod prynhawn dydd Mawrth, 12fed o Fawrth. Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Rhiannon Owen. Yna cyflwynwyd ein gŵr gwadd, Rhys Rowlands, Tremadog. Mae Rhys yn un o gyflwynwyr y rhaglen teledu Garddio a Mwy.

Yn enedigol o Borthmadog, cafodd ei randir cyntaf tra roedd yn ddisgybl blwyddyn 7 yn Ysgol Eifionydd. Bu ei Daid yn gymorth mawr iddo gyda'r garddio nes iddo orffen ei addysg llawn amser. Erbyn hyn, mae ganddo ddau randir yng Nghae Pawb, Porthmadog.

Bu Rhys yn trafod y dull o arddio heb orfod palu. Mae hyn yn ddull o arddio sy'n golygu lleihau ar drin y tir, yn cyfoethogi'r pridd ac yn rheoli rhywfaint ar y chwyn.

Eglurodd Rhys sut i gychwyn gwely o'r newydd trwy osod cardfwrdd ar y tir, yna ychwanegu tail/compost yn drwchus i ddechrau a haenau teneuach yn y blynyddoedd dilynol. Nid oes angen gosod cardfwrdd ar wely sefydlog dim ond ychwanegu haen o gompost.

Os caiff ei reoli'n dda, mae'r dull dim palu yn cadw lleithder yn y pridd, lleihau'r amser sydd rhaid chwynnu ac yn dda i'r pridd a'r amgylchedd.

Rhybuddiodd Rhys fod angen bod yn wyliadwrus wrth ddewis pa gompost i ddefnyddio fel haenen. Gall gweddillion plaladdwyr fod yn bresennol mewn rhywfaint o dail os yw wedi ei wasgaru mewn caeau lle mae'r anifeiliaid wedi pori. Awgrymodd holi'r cyflenwr os yw wedi defnyddio plaladdwr ar y tir.

Gofynnwyd amryw o gwestiynau i Rhys a bu'n barod iawn i'w hateb.

Diolchwyd i Rhys am sgwrs hynod o ddifyr a mwynhawyd sgwrs anffurfiol gydag ef dros baned.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar y 9fed o Ebrill pan gawn gwmni Bethan Moseley.

## Ysgol Penisarwaun

**Llwyddiant Eisteddfod Yr Urdd**
Daeth Parti Unsain yr ysgol yn fuddugol yn y gystadleuaeth i ysgolion llai na 50 o ddisgyblion yn Eisteddfod Rhanbarthol yr Urdd yn ddiweddar. Now a Ned oedd y darn gosod a'r disgyblion wrth eu boddau yn morio canu. Llongyfarchiadau i bawb am wneud eu gwaith mor dda. Bydd y Parti yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod ym mis Mai ac mae pawb yn edrych ymlaen yn arw i gael ymweld a chystadlu yn yr Eisteddfod.

**Bws i'r Eisteddfod**
Mae Cyfeillion yr Ysgol wedi trefnu bws i gludo'r disgyblion i'r Eisteddfod ar ddydd Llun, 27ain Mai. Bydd y bws yn cychwyn o Benisarwaun am 8.30 y bore ac yn dychwelyd ar ôl i'r disgyblion gystadlu yn hwyr yn y prynhawn. Mae seddau gwag ar ôl ar y bws a rydym yn awyddus i'w llenwi. Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno ymweld â'r Eisteddfod am y diwrnod i deithio gyda ni ar y bws. Cysylltwch â'r ysgol os oes gennych ddiddordeb er mwyn trafod argaeledd a chostau'r daith os gwelwch yn dda. Croeso i bawb. Byddwn yn gwerthu seddau ar sail cyntaf i'r felin.

**Taith yr ysgol i Pontio**
Ar 1af o Fai bydd yr ysgol gyfan yn teithio i Pontio i weld Sioe Lwyfan Deian a Loli. Mae'r disgyblion i gyd yn edrych ymlaen, yn enwedig gan mai cyn-ddisgybl o Ysgol Penisarwaun fydd yn chwarae'r prif ran pan fyddwn yn mynychu.

Rydym i gyd yn falch iawn o lwyddiant Ifan, sydd wedi trosglwyddo i Frynrefail ers llynedd. Llongyfarchiadau mawr i ti Ifan!






# LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:
Grŵp Crosio a Gwau Llanberis – Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol.
Clwb Gwnïo – yn y Ganolfan prynhawn dydd Iau, 2.00 – 4.00pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol.

**Capel Coch**
Hen Stampiau
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gelli'r rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r swyddogion.
Bocs Bwyd
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gellir rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y cyntedd unrhyw Sul.
Oedfaon Ebrill, Mai a Mehefin
28ain Ebrill 2.00pm – Parch John Pritchard
5ed Mai 10.00am – Mr Robert Morris
12fed Mai 10.00am – Arfon Wyn
19eg Mai 2.00pm – Parch Gwenda Richards
26ain Mai 2.00pm – Parch Anna Jane Evans
2il Mehefin 10.00pm – Oedfa

**Diolchiadau**
Dymuna Barry, Malcolm, Carolyn a Hilary ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a Hen Nain annwyl ac arbennig. Hunodd ein Mam yn sydyn ar yr 11eg Chwefror 2024.

Dymunwn hefyd ddiolch i'r Canon Robert Townsend am y gwasanaeth yn Eglwys Crist Llandinorwig. Diolch i staff Ward Prysor a staff Uned Argyfwng Ysbyty Gwynedd am y gofal arbennig. Diolch hefyd i E W Pritchard, Llanberis am y cymorth gyda threfniadau'r cynhebrwng.

Gwerthfawrogwyd yr holl ymweliadau gan deulu, ffrindiau a chymdogion oll. Diolch enfawr am yr holl gardiau a rhoddion hynod o hael a gyflwynwyd i'r teulu mewn cydymdeimlad ac er cof am ein Mam, Kathleen.

Bydd y rhoddion er cof am ein Mam yn cael ei gyflwyno i Eglwys Crist Llandinorwig ac i Ward Prysor, Ysbyty Gwynedd.

Diolch o waelod calon i bawb. Calon Lân yn llawn cariad. Caiff ein Mam nawr orffwys mewn hedd gyda Gordon ein Tad ac ein brawd Roy.

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30am a 2:00pm o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gwasanaethau mis Mai
5ed Mai, 11.00am – Cymun Bendigaid
Nos Iau, 9fed Mai, 7.00pm – Offeren dydd Iau'r Dyrchafael, gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun
12fed Mai, 11.00am – Boreol Weddi
19eg Mai – Gwasanaeth sefydlu a chroesawu'r Parch Ganon Naomi Starkey fel ficer ac arweinydd newydd Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri. NODER – mae amser y gwasanaeth wedi newid i **3.00pm**, nid 11am fel yr hysbyswyd eisioes. Mae croeso cynnes i bawb ddod i'r gwasanaeth a bydd lluniaeth i ddilyn, dyma'r unig wasanaeth ar y Sul yma.
26ain Mai, 8.00am – Cymun Bendigaid, 11.00am – Gwasanaeth Teulu.

Enillwyr Clwb Cant mis Mawrth oedd – 1) Margaret Griffith 2) Ellen Hughes 3) Owain Rees Jones.
Mae croeso i unrhyw un ymuno a'r Clwb Cant, y gost yw £2 y mis. Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r eglwys neu gyda Dilys Roberts ar 01286 871423 erbyn diwedd mis Ebrill os gwelwch yn dda.



**Pentref Taclus Llanberis**
Mae grŵp Pentref Taclus Llanberis wedi derbyn peiriant petrol, brwsh a chwythwr gan Marathon Eryri. Yn y llun fe welwch Eric Bayliss ar ran y grŵp yn derbyn y peiriannau gan Anthony Rogers ar ran Marathon Eryri. Mae Pwyllgor Cymuned Llanberis wedi gwneud rhodd lli i'w ddefnyddio gyda'r peiriant hefyd.



Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r haf, i fyny at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Mae'r grŵp yn cychwyn am 10.00yb o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00pm. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook. Dyma luniau o'r criw yn hel sbwriel ym maes parcio Gwesty Victoria ac ardal Stesion yr Wyddfa.







FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

# CHWILAIR MIS EBRILL - GWLEDYDD ASIA

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | T | P | A | C | I | S | T | A | N | R | M | I | W | N |
| B | A | H | R | E | Dd | I | N | R | A | E | L | S | Dd | C |
| R | L | I | U | S | B | A | D | I | T | A | C | Ff | O | A |
| U | C | L | A | L | A | P | E | N | S | I | A | C | N | D |
| N | Ng | I | H | I | P | A | B | O | I | S | M | W | A | E |
| E | L | P | O | N | D | N | E | W | N | E | B | S | I | T |
| I | M | I | R | A | N | C | Dd | E | A | N | O | N | S | W |
| Ph | A | N | L | O | M | A | N | S | H | O | D | E | Y | R |
| L | M | E | D | W | D | E | C | A | G | D | I | A | A | C |
| Ll | T | S | Y | R | I | A | D | R | F | N | A | B | L | I |
| S | Th | C | T | N | P | E | T | W | A | I | R | Y | A | S |
| A | R | M | E | N | I | A | E | D | B | M | T | I | M | D |
| E | L | E | Y | A | L | Ll | H | E | Ch | O | S | M | N | I |
| M | A | L | D | I | V | E | S | F | P | W | U | Ng | T | B |
| B | W | F | M | Y | N | A | M | A | R | Y | I | E | A | L |

AFGHANISTAN
ARMENIA
BRUNEI
CAMBODIA
INDONESIA
IRAN
MALAYSIA
MALDIVES
MYNAMA
NEPAL
OMAN
PACISTAN
PHILIPINES
RWSIA
SIAPAN
SYRIA
TSEINA
TWRCI

**Tybed allwch chi ateb y cwestiynau canlynol:**

1. Beth oedd enw blaenorol Mynama?
2. Pa wlad sydd â'r boblogaeth fwyaf yn AsIa?
3. Pa wlad sydd â'r boblogaeth leiaf yn AsIa?
4. Pa afon yw'r hiraf yn Asia a Tseina?
5. Pa ddwy afon sy'n hirach na hon?
6. Pa wlad sy'n rhan o Ewrop ac Asia?

Cewch yr atebion i'r chwilair a'r cwestiynau yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch fod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.



| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | B | G | I | W | Ch | D | U | N | D | R | B | S | Ng | L |
| S | B | A | C | A | B | E | Th | I | O | P | I | A | E | I |
| S | O | M | A | L | I | A | R | Ll | Ff | E | B | R | C | G |
| A | T | B | M | V | Ch | Ff | T | L | E | S | O | T | H | O |
| D | S | I | E | D | A | R | U | Ch | M | E | V | A | T | S |
| U | W | A | R | F | Dd | I | D | A | B | W | N | D | R | E |
| M | A | D | O | E | T | C | W | L | I | A | A | N | O | Y |
| E | N | G | O | P | R | A | L | G | E | R | I | A | Ch | C |
| S | A | Y | N | S | N | B | I | E | S | D | Ll | G | D | H |
| T | C | E | C | G | L | Y | D | L | W | R | A | U | P | E |
| C | A | B | O | V | E | R | D | E | A | N | D | E | A | L |
| D | B | L | N | Ch | C | A | Th | B | T | I | M | G | L | L |
| N | A | Ll | G | I | P | I | E | R | I | T | R | E | A | E |
| Y | S | U | O | Ff | E | Ff | Rh | L | N | A | L | A | B | S |
| Rh | D | W | U | I | D | T | G | N | I | G | E | R | I | A |

## CHWILAIR MIS EBRILL – GWLEDYDD AFFRICA

ALGERIA
ANGOLA
BOTSWANA
CABO VERDE
CAMEROON
CONGO
DE AFFRICA
ERITREA
ESWARTINI
ETHIOPIA
GAMBIA
GHANA
LESOTHO
NIGERIA
SOMALIA
SEYCHELLES
UGANDA
YR AIFFT

**Tybed allwch chi ateb y cwestiynau canlynol:**

1. Mae **54** gwlad yn Affrica ar hyn o bryd.
2. **Nigeria** yw'r wlad sydd â'r boblogaeth fwyaf yn Affrica**? (227,236,177 ar 23ain Chwefror)**
3. **Seychelles** yw'r wlad sydd â'r boblogaeth leiaf yn Affrica? **(108.050 ar 23ain Chwefror)**
4. **Yr Afon Nîl** yw'r afon hiraf yn Affrica.
5. Mae gan **Lesotho** gysylltiad cryf efo Cymru.







# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlo**

Daeth dechrau'r gwanwyn a chryn golledion i deuluoedd yr ardal a rhai â chysylltiad a'r ardal.

Yn gyntaf cydymdeimlwn â Robert 'Bob' Thomas Islwyn, Bethel, a'r teulu estynedig. Ar droad y tymor collodd ei wraig Glenys, wedi 63 o flynyddoedd priodasol. Un o ferched Cremlyn oedd Glenys, ac am flynyddoedd bu ei theulu yn ffyddlon iawn i'r achos Eglwysig ym Methel a Llanddeiniolen. Merch dawel oedd Glenys ond parod ei chyfarch ac ymholiad o hyd.

Yr un ein cydymdeimlad i Sian Harris, Tyddyn Andrew, Bethel a'r teulu. Bu farw mam Sian, Zonia Bowen. Fe gofir Zonia am ei hymroddiad a chefnogaeth i sawl ymgyrch a mudiad fu'n meithrin a chryfhau y Gymraeg. Yn fwyaf, cysylltir hi â'r criw merched yn ardal y Parc, Y Bala a wthiodd y maen i'r wal i sefydlu mudiad Merched y Wawr.

Tua'r un adeg, collodd Llinos Jones, Y Fachell, Seion, ei thad. Roedd gwreiddiau John Owen Griffith yn Nhŷ'n Rhos, Llangwnnadl, Llŷn. Dros y blynyddoedd diwethaf o waeledd, cafodd groeso a gofal tyner gan Llinos a'r teulu ar aelwyd y Fachell. Rhyfedd meddwl fod fferm y Fachell bron union ar draws y ffordd i Tŷ'n Rhos, Llanddeiniolen. Cylch bywyd yn wir.

Yna, daeth y newyddion am farwolaeth Jenkin Morgan Griffiths, Llwyn Eithin gynt, draw yn Llanharan, Rhondda Cynon Tâf. Ers rhyw saith mlynnedd bellach, roedd Jenkin a Glenys wedi symud i lawr i'r de, yn agosach at y mab Dewi a'i wraig Hannah. Bu'r ymadawiad hwn yn golled mawr i ni fe pentref. Mae'n gwestiwn os rhoddodd un pâr priod gymaint o gefnogaeth i gynifer helaeth o fudiadau a chymdeithasau, nid yn unig i'r pentref ond i'r ardal ehangach. O arwain Parti Merched, Yr Urdd, Clwb Bro, gweithgareddau'r Neuadd, Yr Eisteddfod, hyfforddi ieuenctid, Merched y Wawr, Y Cysegr… Ble bynnag yr oedd gweithgaredd elusennol angen cefnogaeth neu gymorth gyda threfniadau, yna roedd Jenkin a Glenys yno.

Di-flino, byw credoau, -hael eu nawdd,  
rhoi'r blynyddoedd gorau.  
Dros eraill, dau roes oriau,  
colli dwfn oedd colli dau.

Un o Benuwch, Ceredigion oedd Jenkin, ac wedi addysg leol a chwrs coleg daeth i Wynedd i gynnal swydd Dirprwy-Lyfrgellydd y Sir. Ymgartrefodd yn y cyfnod hwnnw ym mhentref Cesarea (Y Fron). Ar ddechrau'r 80'au symudodd Jenkin a Glenys, a'u ddau fab ieuanc Aled a Dewi, i Lwyn Eithin a dechrau ar y berthynas gefnogol yma i ni fel ardal. Erbyn heddiw, mae Aled a'i wraig Kelley wedi ymgartrefu ers sawl blwyddyn yn Vancouver Canada, a chanddynt un mab Evan. Mae Dewi yn gyfarwydd i ni, nid yn unig ar lefel y Genedlaethol ond fel unawdydd disglair iawn gyda rhai o brif fandiau offerynol Cymru a thu hwnt. Cofiwn hefyd am Sian, merch Jenkin. Roedd ei ofal o'r plant yn flaenllaw, ac ymfalchiai Jenkin a Glenys yn eu datblygiad a chyfraniad i gymdeithas.

Yn ddios, bu'r ymadawiad i'r de yn golled mawr i Gapel y Cysegr. Dyma ddwy graig a fu'n sylfaen amhrisiadwy i'r achos. Yn 1986 codwyd Jenkin yn flaenor, ac yn fuan iawn gwnaeth ei farc fel Ysgrifennydd yr Achos. Roedd hefyd yn lais clir yn yr Henaduriaeth. Yn gefn i bob gweinidog yn ei dro. Fel Ysgrifennydd y Capel roedd yn gofnodwr a dehonglwr cywrain iawn. Ni adawyd unrhyw ddogfen o'i law heb iddi'n gyntaf fod wedi ei arsylwi a chrib mân, manwl. Rhoddwyd dyledus barch i bob cyfarfod yn ymwneud â'r Capel a'i chysylltiad â'r Henaduriaeth. Yr oedd yn hyddysg yn nhrefniadaeth yr Enwad, elfen bwysig o ddod i benderfyniad mewn sawl achos. Roedd hefyd yn godwr canu, ac wedi ymaelodi â Chôr Dyffryn Nantlle. Gyda balchder ymunodd Glenys â Jenkin yn y 'Sêt Fawr' yn 2006, gan ymuno a'r blaenoriaid wedi'r sefydliad ar yr un noson â Rita Williams, a'r diweddar bellach Ddr. John Elwyn Hughes.

O glywed am farwolaeth Jenkin, rhoddwyd teyrnged dyner, deilwng iddo yn oedfa bore'r Sul canlynol yn y Cysegr gan ei gyn-weinidog, y Parch. Marcus Robinson. Ef hefyd oedd yn arwain y gwasanaeth a'r gladdedigaeth yn Eglwys y Tabernacl, Efail Isaf ar bnawn Sadwrn, 20ed Ebrill. Ar ran llawer, diolch i ti Jenkin am dy ymroddiad a chefnogaeth mewn sawl cyfeiriad yma ym Methel a'r cyffiniau.



**Clwb Bro**

Cyfarfu aelodau'r Clwb Bro brynhawn Mawrth, 2il Ebrill. Croesawyd bawb gan Mary Wyn Jones, y Llywydd. Dymunwyd yn dda i Marjorie Roberts oedd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Gyda thristwch clywsom am farwolaeth Jenkin Griffiths (Llwyn Eithin gynt). Cydymdeimlwn â Glenys, Aled, Dewi, Sian a'u teuluoedd. Bu Siencyn a Glenys yn gefn i weithgareddau y Clwb Bro am sawl blwyddyn.

I ddilyn, estynnwyd groeso i Siôn Wyn Williams, ein gŵr gwadd. Hyfforddwr ffitrwydd yw Siôn, ac mae'n gweithio ers 5 mlynedd yng Nghanolfan Byw'n Iach Arfon. Cafodd ei fagu yn ardal Llanwnda, ond mae ganddo gysylltiad â phlwyf Llanddeiniolen gan i'w fam gael ei magu yn Neiniolen.

Cafwyd pnawn difyr ac egnïol yng nghwmni Siôn, wedi ei selio ar ymarferion i'r corff tra'n eistedd mewn cadair. Soniodd y buasai treulio 5 munud y diwrnod yn gwneud yr ymarferion yn llesol i iechyd y corff. Roedd y sesiwn yn addas ac amserol i'r sawl ohonom oedd wedi gwledda ar siocled dros y Pasg.

Diolchodd y Llywydd i Siôn am roi ei amser a rhannu ei arbenigedd gyda ni. Rhannwyd wybodaeth am y trip fis Mehefin. Gofynnir i bawb sydd am fynd ar y trip ddychwelyd y ffurflen fwyd a'r arian yn y cyfarfod nesaf. Y gŵr gwadd fydd yr hanesydd poblogaidd, Robert Morris, Penygroes.





Diolch i Nia Griffith a Myfanwy Harper am baratoi'r baned.

**Cyfnod yn yr Ysbyty**

Bu Marjorie Roberts, Tŷ Newydd yn Ysbyty Gwynedd ar gyfer profion ddechrau'r mis ond braf cofnodi ei bod hi adref bellach.

Cludwyd Eryl Roberts, Bryn Rhedyn i'r ysbyty wedi iddi lithro a chael anaf cas i'w phelfis. Mae hithau adref bellach ond yn wynebu wythnosau o orffwys i roddi cyfle i'r anaf wella. Dymuniadau gorau.

Y trydydd yw John Edward Jones, Stad Eryri, neu John Plisman i ni yma ym Methel. Mae ei arhosiad ef yn hirach na'r ddau arall a gobeithiwn y bydd yntau yn dychwelyd adref yn fuan. Bydd un digwyddiad pwysig yn sbardun iddo – ar ddydd Sadwrn, 20ed Ebrill, bydd John yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed.

**Dyweddïad**

Braf oedd derbyn y cofnod hwn ar gyfer yr *Eco*.

" Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Natalia (merch Lourdes Perez Aguilar a'r diweddar Miguel Angel Garcia o Ddinas Mecsico) a Geraint (mab Gwyn a'r diweddar Lynne Brython Edwards o Fryn Dafarn, Llandwrog Uchaf, ond gynt o Dai Cae Rhos, Seion), ar eu dyweddïad yn Polanco, Dinas Mecsico ar 30ain Mawrth, 2024.

**Diolch**
Braf cofnodi, o fewn ychydig ddyddiau o dderbyn rhifyn Ebrill o'r *Eco*, bod pob tanysgrifiwr wedi talu y £10 blynyddol o flaen llaw. Diolch hefyd i'r nifer dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi rhoddi rhoddion ariannol tuag at yr *Eco*. Diolch i chwi am eich cefnogaeth, a gobeithio bod hyn yn adlewyrchiad o'ch bodlonrwydd gydag ymdrechion y criw bychan gweithgar sy'n paratoi yr *Eco* o fis i fis. Cofiwch ein bod yn falch o dderbyn unrhyw syniadaeth i yrru y papur yn ei flaen. Bu cryn golledion yma dros y flwyddyn ddiwethaf ond rydym yn dechrau blwyddyn ariannol 2024-2025 gyda gwerthiant o 110 yma ym Methel/Seion. Byddwch genhadon dros y papur, a gadewch i mi wybod am unrhyw 'gwsmeriaid' newydd.

**Angen Gyrrwr**
Oherwydd arweiniad meddygol dydi pensiynwr o Fethel bellach ddim yn gyrru. Mae ganddi fodur mewn cyflwr bron yn newydd. Fe fuasai'r person dan sylw yn ddiolchgar os fuasai rhywun yn y pentref yn fodlon bod yn yrrwr iddi ar gyfer taith siopa wythnosol neu apwyntiad. Yn amlwg buasai'n rhaid i'r gyrrwr fod yn iach ac yn berchen trwydded yrru lân.

Am fwy o fanylion gellir cysylltu ar 01248 671438.

**Clwb Bowlio Dan Do**
Braf cofnodi fod canlyniadau y tîm wedi 'gwella pan ddaeth y gwanwyn', ac maent ar hyn o bryd ar rediad llwyddiannus. Ganol Ebrill, ar ddydd Sadwrn, cynhaliodd y Clwb dwrnament parau yn y Neuadd, a chafwyd cynrychiolaeth dda yn ymgiprys am y Tlws. Roedd elw y diwrnod er llês Cymdeithas Ymchwil Clefyd Parkinsons.

**Llwyddiant**
Cipiodd Richard Lloyd Jones Gadair Eisteddfod Mynytho ganol mis Ebrill. Yn y gerdd lwyddianus 'Y Gorwel' roedd yn pwysleisio apêl David Attenborough drwy ei raglenni teledu a darlithoedd am yr angen i'r byd ymateb yn fwy cadarnhaol i effeithiau cynhesu byd aang. Y beirniad oedd yr Athro Peredur Lynch.

Bydd 'hen linell bell' yn bod
yn 'derfyn', ffiniau'n 'darfod'.

**Oedfaon Mai**
Capel Cysegr: 5/5 Gweinidog; 12/5 Sul yr Ofalaeth yn Llanrug; 19/5 Undebol yng Nghapel Saron (1.15pm); 26/5 Gweinidog.

Capel Bethel: 5/5 Parch. Idris Thomas.

**Atgof**
Roedd cyn ganmol ar y rhaglen ddogfen ddiweddar ar S4C yn ymdrin â brwydr, caledi a dyfalbarhad y streicwyr dros bron i dair blynedd, yn ystod anghydfod 'Streic Ferodo' ar lafar gwlad. Yr aberth, y brwydro a thrwy ddisgyblaeth ennill y wobr foesol. Serch hynny, "ennill y frwydr a cholli'r rhyfel" oedd hi chwedl un cyfrannwr. Y mae sgerbwd fframwaith yr hen ffatri erbyn heddiw yn symbol gignoeth o hynny. Un â gyfranodd oedd Gwilym Williams, Bro Rhos, Bethel, a rhoddodd ddarlun glir o awyrgylch y cyfnod. Ffigwr amlwg arall oedd y diweddar bellach, Tom Jones, neu Twm Undeb i ni'n lleol. Yntau yn un o hogiau Cremlyn. Dyma math o adnodd ddylsid ei gyflwyno mewn modiwl Hanes Cymru pan fydd y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd wedi codi stêm.



**Merched y Wawr**
Mis Mawrth
Ar 13eg o Fawrth fe ddathlodd Merched y Wawr Bethel Ddydd Gŵyl Dewi yng Nghaffi'r Bedol ym Methel.

Darparwyd gwledd flasus o gawl cennin neu lobsgows a bara brith a chacennau cri gan wirfoddolwyr y caffi.

Ar ddechrau'r cyfarfod cawsom ychydig o newyddion lleol gan Jen Roberts ein Llywydd.

Anfonwydd ein llongyfarchiadau at Gwyneth Roberts ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf. Cafodd Rhys ei hŵyr a'i bartner Llio fab bach sef Twm Morgan.

Hefyd, anfonwyd ein cydymdeimlad at un o'n cyn aelodau Ceinwen Williams a gollodd ei gŵr Eifion yn ddiweddar.





Ein gŵr gwadd i'r digwyddiad arbennig hwn oedd Ifor ap Glyn. Rydym yn adnabod Ifor yn fwy diweddar fel cyn Fardd Cenedlaethol Cymru. Mae'n un o sefydlwyr Cwmni Da ac wedi ennill sawl gwobr am ei waith gan gynnwys 'Lleisiau'r Rhyfel Mawr' a 'Popeth yn Gymraeg'. Enillodd y Goron ddwywaith yn Eisteddfodau Cenedlaethol Ynys Môn 1999 ac yna Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych yn 2013. Bu hefyd yn fardd Plant Cymru rhwng 2008 a 2009.

Gan i Ifor gael ei eni a'i fagu i rieni Cymraeg yn Llundain bu'n sôn cymaint a ddylanwadodd hynny ar ei agwedd tuag at y Gymraeg. Soniodd hefyd am ei wyliau gyda ei nain a'i daid yn Llanrwst a difyr iawn oedd yr hanesion hynny.

Bu'n darllen detholiadau o nifer o'i lyfrau y mae wedi eu cyhoeddi. Roedd ei berfformiadau yn ddiddanwch mawr i ni fel cynulleidfa. Yn ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru rhannodd ei brofiadau o deithio i nifer o wledydd megis China a Lithiwania gan enwi ond ychydig o'i deithiau.

Cytunwydd iddi fod yn noson arbennig o ddifyr i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

Diolchwyd i Ifor gan Mair Read.

Mis Ebrill
Croesawyd llond y neuadd fach i'n cyfarfod mis Ebrill gan ein llywydd Jen, a braf oedd gweld cynifer wedi troi i mewn.

Anfonwyd cofion a gwellhad buan at Eryl Roberts sydd wedi cael codwm ac wedi torri ei phelfis ac asgwrn yn ei chlun. Cofion hefyd at Anwylyd Jones sydd wedi cael triniaeth ar ei llaw ac ddim yn cael dreifio ar hyn o bryd. Roedd hi'n braf gweld Rhian Hughes yn gwella ar ôl cael triniaeth yn ddiweddar, gan ddymuno penblwydd hapus arbennig iddi wythnos nesaf. Fe fydd Mair Read hefyd yn dathlu penblwydd arbennig ddiwedd y mis ac yn derbyn yr un cyfarchion. Anfonwyd ein cydymdeimlad at Glenys Griffiths, a fu'n aelod blaenllaw o'r gangen am flynyddoedd cyn symud i dde Cymru, sydd wedi colli ei gwr, Jenkin. Anfonwn ein cydymdeimlad ati hi ac i Aled a Dewi a'u teuluoedd.

Ein gwraig wadd oedd ein hysgrifennydd Meira Evans, sydd ar ôl ymddeol wedi dechrau busnes bach 'Gwlan y Bwthyn' ac yn mynd o amgylch ffeiriau crefft o bryd i'w gilydd.

Cawsom sgwrs hamddenol ar ei thaith at wnïo, gweu a chrosio gan ddechrau drwy gael ei dysgu gan ei mam ar yr aelwyd y Llanberis. Disgrifiodd ei hun yn eneth fach, yn gwneud llanast, yn datod ac yn gwylltio - gan ddweud fod hynny yn wers dda mewn bywyd wrth i ni orfod datod ac ail ddechrau pan fydd pethau yn mynd o'i le. Roedd yna atgof ynghlwm wrth nifer o'i gwaith, gan ddisgrifio fel y bu iddi ddechrau gwneud ei dillad ei hun wrth ddechrau gweithio, creu blancedi a chwilitiau i'r plant, gan fynnu mai hi fyddai yn gwneud siôl cyntaf ei wyrion.

Ac yna fe ddaeth at y gwaith y mai hi wedi eu gwneud dros y blynyddoedd diweddar, sydd yn bell iawn o waith y ferch fach flêr chwech oed. Dangosodd gwilt wedi ei wnïo a blanced wedi ei chrosio yn gelfydd - dyma'r gwaith y mae hi yn fwyaf balch ohonynt. Ond y mae ei dawn yn ymestyn o fagiau, yn aml yn cael eu gwneud o ddefnydd sydd wedi cael ei roi iddi, i'w diléit diweddar o grosio anifeiliaid bach, sydd yn grefft arbennig o'r enw *amigurumi*. Tydi hi ddim yn dilyn patrwm ond yn mynd ar Youtube i ddysgu ei hun, ond mae'r ddawn gynhenid yn disgleirio ymhob darn o waith y mae hi wedi ei greu.

Rhoddodd gyfle i aelodau ddangos y gwaith yr oedden nhw wedi eu cwblhau yn yr ysgol, gyda'r *gingham* a'r *binca* yn arddangos y pwythau a ddysgwyd. Roedd yna liain bwrdd, bag i ddal coban, bagiau bach, a *tray cloths*. Dros baned cawsom gyfle i gwblhau cwis yr oedd wedi ei baratoi ar ein cyfer. Diolchwyd iddi gan Anita am noson hyfryd, a pharatowyd y baned gan Liz. Deilwen ac Ann Lewis a Mary Evans a enillodd y raffl.

Cawsom hefyd gyfle i ethol swyddogion a phwyllgor ar gyfer y tymor nesaf, a fydd yn dechrau ar eu gwaith dan lywyddiaeth Liz Watkin. Diolch i bawb am fod yn barod i dderbyn swyddi i sicrhau parhâd y gangen.

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 25

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Dwi'n meddwl mod i'n deall Bob, ond tybed ydy o yn fy neall i?

*Yn ôl rhai gwybodusion dydy cathod ddim yn gallu deall iaith deu-droediaid yn union. Dwi'n meddwl mod i'n nabod iaith Bob, hynny ydy os ydy ei gwnffon yn siglo neu os ydy o'n mewian mewn rhyw ffordd arbennig. Gallwch hefyd wylio iaith corff eich cath. Os ydach chi'n deud yr enw, bydd rhai yn mewian yn ôl atoch neu bydd eraill yn troi eu pennau i un ochr neu'n troi eu clustiau tuag atoch chi.*

*Dywed rhai gwyddonwyr bod cathod yn deall oddeutu 20 i 40 o eiriau mae'r deu-droediaid yn eu defnyddio ac maent yn gallu adnabod sŵn eu henw. Mae cathod yn cysylltu geiriau ac yn gwahaniaethu rhyngddynt efo ton llais ac iaith corff yn hytrach na deall union ystyr gair. Maent* hefyd yn ymwybodol o'ch teimladau h.y. os ydach chi'n teimlo'n drist, hapus neu'n poeni am rywbeth.

*Yn ôl astudiaeth arall mae cathod yn ymateb yn well i'w henwau eu hunain yn hytrach nag i eiriau eraill. Yn ddiddorol does dim ots os yw enw'r gath yn cael ei alw gan eu perchennog neu ddieithryn. Mae'n gwneud synnwyr bod cathod yn ymateb i'w henwau. Dydyn nhw ddim yn wirion ac maent yn dysgu'n fuan iawn bod geiriau yn arwain at ganlyniad positif e.e. bwyd neu amser chwarae. Ond dydy rhai geiria ddim yn arwain at wobr, felly maent yn dysgu i'w hanwybyddu. Fydd eich cath felly ddim yn dod atoch chi bob tro o weiddi ei enw…*


Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori …


"Dwi'n deud hyn reit amal, ond wir y mae gofyn ei ddeud eto. Mae'r deu-droediaid yma'n betha gwirion! Pam wyt ti'n deud hynna Bob, dwi'n eich clywed chi'n gofyn? Wel dydyn nhw'n gofyn cwestiynau gwirion byth a beunydd.

Wna'i roi enghraifft i chi. Ar ôl i un o'r deu-droediaid roi danteithion hyfryd i mi yn fy mhowlen y bore o'r blaen, ar ôl hirlwm y nos, beth ofynnodd yr un fach i mi?

"Wyt ti isio mynd allan Bob?"

Allwn i ddim coelio fy nghlustiau! Dim bod fi'n deall bob gair o'r iaith ryfedd y maen nhw a'u ffrindiau'n ei ddefnyddio cofiwch. Ond dwi'n deall y cwestiwn yma! Wir yr! Pam ar wyneb y ddaear maen nhw'n meddwl mod i'n ista ar y mat o flaen y drws cefn ers hydoedd? Ydyn nhw'n meddwl mod i'n licio ista yn fan'ma ar fy mhen fy hun yn syllu ar y drws? Dwi newydd gael brecwast ar ôl bod mewn drwy'r nos, lawr grisiau, ar fy mhen fy hun. Byddai synnwyr cyffredin yn deud mod i angen mynd allan i wneud be sy'n rhaid i unrhyw gath ei wneud yn y bora …





Cwestiwn hynod o wirion arall fydda i'n ei glywed ydy - "Wyt ti isio bwyd?"

Ydw i isio bwyd? Ar f'enaid i! Allai wir ddim coelio fy nghlustiau! Wrth gwrs fy mod i isio bwyd! Ydyn nhw'n meddwl mewn difri, bod modd cadw'r corff athletaidd 6kg yma fel hyn, heb i mi gael bwyd? Mi ydw i bob amser isio bwyd. Wyddoch chi be? Os nad ydyn nhw'n rhoi rwbath yn fy mhowlen i'n reit handi mi fyddan nhw'n difaru…"

Maen nhw hefyd weithiau'n deud pethau nad ydw i am ymateb iddynt, pethau fel, "Ty'd yma!"


Gwrandwch yn astud, dydy rŵan y deu-droediaid, ddim bob amser yr un peth a fy rŵan fi. Os ydw i'n ista ar do'r cwt wrth ffenest y gegin, dydy o ddim yn golygu mod i am ddod i mewn, dwi jest yn licio ista yna. Dwi'n gallu eich gweld chi a gwylio be ydach chi'n ei neud yn y gegin, ac os dydy hi ddim yn bwrw, mi eistedda i yma am dipyn. Jest gadwch lonydd i mi… Os dydw i ddim yn dod at y drws cefn, dydw i ddim isio dod i mewn i'r tŷ!

"Tisio mwythau?"

Wel dyna gwestion call o'r diwedd. Mae'r ddeu-droed leiaf wedi ei dallt hi! Haleliwia! Dwi wrth fy modd pan mae un ohonyn nhw'n rhoi mwythau i mi. Wrth iddyn nhw rwbio fy nghefn (nunlla arall de) fedra i ddim peidio ag ymlacio a chanu grwndi. Dwi hyd yn oed yn gadael i rai o'r deu-droediaid lleiaf un roi mwythau i mi, os ydyn nhw'n rhai bach da.

Dwi'n dechrau eu dallt nhw ac maen nhw yn dechrau fy nallt i erbyn hyn, ar ôl dwy flynedd a mwy o fwy efo'n gilydd. Yr unig beth, jest weithiau, maen nhw'n anghofio mai teigr ydw i nid 'ciwti cat'! Ella mod i'n cysgu llwynog ar y soffa, ond dwi'n barod i ymosod a tharo nôl unrhyw bryd!

Dwi'n meddwl mod i wedi ei dallt hi."




CEIR CYMRU

Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch
ysbrydoli



Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas
Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

# Ysgol Gwaun Gynfi

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r holl gystadleuwyr a fuodd yn yr Eisteddfod Cylch a'r Rhanbarth yn ddiweddar.

Daeth y parti llefaru yn ail yn y Cylch a'r ymgom yn ail a thrydydd yn y Rhanbarth. Diolch yn fawr i Lowri Jones am eu hyfforddi.







**Dawnsio Disgo**
Llongyfarchiadau mawr i Elsa enillodd y wobr 1af mewn dawnsio disgo unigol ac hefyd i Siwan ac Elsa, sydd yn rhan o'r grŵp dawns Hudoliaeth, a fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Mai. Gwych a phob lwc i chi!



**Dydd Gŵyl Dewi**
Diwrnod o ddathlu ein nawddsant drwy wneud gwahanol weithgareddau.





**Gweithdy Technocamps**
Amrywiaeth o weithgareddau diddorol , a'r plant yn mwynhau dysgu codio a datblygu sgiliau cymhwysedd digidol drwy ddefnyddio Lego a Spheros.



**Diwrnod y Llyfr**
Bu i'r plant ddathlu diwrnod y llyfr yn ddiweddar drwy wisgo fel cymeriadau o lyfr neu ddod a'i hoff lyfr i'r ysgol a chafwyd gweithgareddau diddorol drwy'r dydd.





**Gala Nofio Ysgolion**
Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n cynrychioli'r ysgol yn y Gala yn ddiweddar. Daeth yr ysgol yn ail. Da iawn chi!

**Raffl Pasg**
Llongyfarchiadau mawr i Llion a Josh am ennill yr hamper Pasg. Mwynhewch fwyta'r holl siocled!



**Gweithdy gan HSBC**
Mi fydd disgyblion Gwaun Gynfi yn hen law ar drafod arian ar gyfer y dyfodol!



**Dathlu 150 mlynedd ers sefydliad Undeb y Chwarelwyr**
Diolch i'r Amgueddfa Lechi, Llanberis am y wledd o weithgareddau Celf , Llythrennedd a Rhifedd gan Mari Morgan. Edrych ymlaen at y dathliad.

**Llwyddiant Gwyddonydd Ifanc**
Braf iawn yw cael llongyfarch Dr Sioned Fôn Jones, Tŷ'n Twll gynt, ar ei llwyddiant yn cael ei chynnwys ar restr '*Forbes 30 under 30*' 2024. Mae'r rhestr ddylanwadol hon yn cynnwys enwau 30 o bobl o dan 30 oed sydd wedi creu argraff arbennig yn eu gwahanol feysydd. Cafodd Sioned ei chynnwys ar y rhestr gwyddoniaeth am ei gwaith yn datblygu llefrith i fabanod sy'n cynnwys bacteria llesol tebyg i'r un sydd i'w gael yn naturiol yn llaeth y fron. Enwau adnabyddus eraill sydd wedi bod ar y rhestr yn y gorffennol ydi'r gantores Rihanna, Mala Yousafzai, yr ymgyrchydd heddwch a Mark Zuckerberg sylfaenydd Facebook, felly mae Sioned yn cadw cwmni i bobl sydd wedi cael dylanwad enfawr ar ein byd ni heddiw.

Cafodd Sioned ei haddysg gynradd yma yn Waunfawr, cyn mynd i Ysgol Brynrefail, ac yna ymlaen i'r Brifysgol i astudio Cemeg. Mae'r teulu bellach wedi symud o'r pentref, ond braf yw gwybod bod y gwyddonydd ifanc dawnus yma wedi cael y cychwyn gorau yma yn Waunfawr. Dymuniadau gorau i ti Sioned, a gobeithio byddwn yn gallu adrodd dy hanes pob hyn a hyn yn y golofn hon.

**Ail-hysbyseb swydd ac ymestyniad i'r dyddiad cau**

**CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR A CHAEATHRO**
**HYSBYSEB SWYDD**
**(Ymestyniad i'r dyddiad cau)**
**CLERC / SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL /**
**CLERC MYNWENT BETWS GARMON**
Mae Cyngor Cymuned Waunfawr a Chaeathro yn awyddus i benodi Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol sydd â phrofiad perthnasol a'r ymrwymiad i gyflawni blaenoriaethau a gofynion statudol y Cyngor. Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am weithredu gofynion cyfreithiol, ariannol a gweinyddol y Cyngor ynghyd â gweinyddu ar ran Mynwent Betws Garmon. Mae'n ofynnol gweithio'n hyblyg yn y swydd a gallu gweithio o gartref. Bydd cyfnod o anwytho i'r ymgeisydd llwyddiannus pe bai angen.

Oriau: Rhan amser, oddeutu 30 awr y mis ar gyfartaledd, yn cynnwys mynychu cyfarfodydd y Cyngor bob 6 wythnos.

Cyflog: I'w drafod

Y cam cyntaf yw e-bostio eich CV sy'n cynnwys eich manylion cyswllt ynghyd â llythyr i gefnogi'ch cais at Hawys Tuff: cynghawystuff@ccwaunfawrcaeathro.co.uk

Am gopi o'r swydd ddisgrifiad, neu fanylion pellach, cysylltwch â

Shoned Griffith: clerc@ccwaunfawrcaeathro.co.uk

Dyddiad Cau: Dydd Gwener, 10fed o Fai 2024 am hanner nos.

**Bore Coffi – Ambiwlans Awyr**
Cynhaliwyd bore coffi a chacen yng Nghanolfan Waunfawr ar 23ain o Fawrth i ddathlu pen-blwydd Ambiwlans Awyr Cymru yn 23 oed. Llwyddwyd i godi £170 at yr achos pwysig hwn. Hoffai Carys Owen ddiolch i bawb gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Ar ran pentrefwyr Waunfawr – diolch yn fawr i chi Carys am drefnu!

**Ymddeoliad**
Mae pobl Waunfawr yn gwybod bod ganddon ni y syrjeri orau yng Nghymru yma yn y pentref, a bod pob un o'r staff yn cynnig gwasanaeth o safon i ni drwy'r flwyddyn! Un fu'n rhan o dîm y syrjeri ers blynyddoedd maith ydi'r nyrs Carol Howell. Diolch yn fawr iawn Carol am y gwasanaeth ardderchog rwyt ti wedi ei roi i ni yma ar hyd y blynyddoedd, a dymuniadau gorau posibl am ymddeoliad hapus.

**Gwellhad buan**
Mae John Roberts, Stad Glyn Afon, Raymond Ffridd Felan, Tudur Pritchard, Fferm Cae'r Waun, Chris Simpkins, Llys Menai, ac Elsi Wyn Davies, Bro Waun gynt, i gyd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi i gyd am adferiad buan.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Ffiona a Rhys, Bro Waun, ar enedigaeth Bonnie Wynne ar 4ydd Chwefror. Mae'n siŵr bod brodyr mawr Bonnie, sef Caio, Cian, Noa ac Elis wedi gwirioni. Dyma wyres gyntaf taid a nain, sef, Karen a Mike Bro Waun.

Ar 8fed o Fawrth daeth Karen a Mike yn nain a thaid i wyres arall, sef Lily Eifiona, merch fach i Tomos a Fflur.

Dymuniadau gorau i chi gyd, a hwyl fawr ar y magu.

**Noson Cangen Plaid Cymru Waunfawr – Bwncath**
Cafwyd chwip o noson yn Nhafarn Waunfawr ar 12fed Ebrill pan ddaeth Bwncath i gadw noson. Roedd pob un tocyn wedi ei werthu a phawb yn morio canu efo'r band. Be fasa'r bardd Cynan yn feddwl bod llond lle o bobol hen ac ifanc yn canu ei gerdd Aberdaron mewn tafarn yn Waunfawr yn 2024? Diolch yn fawr iawn i hogia Bwncath am noson werth chweil, i Carmen y dafarn am gyfrannu at y costau, i Dafydd Iwan am arwyddo het pêl-droed Cymru i'r raffl ac i bawb ddaeth i fwynhau.

**Cartref Newydd**
Croeso cynnes iawn i Gethin, Megan a Tomi bach i'w cartref newydd yn Awel y Grug. Mae Gethin a Megan wedi bod yn gweithio yn galed i adfer y tŷ ers misoedd bellach ac o'r diwedd wedi gallu symud i mewn. Merch o Waunfawr ydi Megan Lowe, gafodd ei magu yn Ger y Ffynnon, a Gethin a'i wreiddiau hefyd yn Waunfawr. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

**Cylch Meithrin Waunfawr**
Mae'r Cylch yn chwilio am swyddog gweinyddol – oes gandddoch chi amser sbâr i'w roi i gefnogi gwaith y Cylch? Yn ogystal â chyfrannu at barhad y Cylch mae'n gyfle ardderchog i ddod i adnabod plant bach a theuluoedd y pentref. Croeso i chi gysylltu â'r Cylch am fwy o fanylion.




**Stwnsh Sadwrn**
Cafodd Twm Shon, Bodrida sioc bleserus o gael ei ddewis i fynd ar raglen Stwnsh Sadwrn yn ddiweddar – dyma'r hanes yng ngeiriau Twm ei hun:

"Helo Twm ydw i a dwi'n 6 oed. Un o'r rhaglenni dwi'n hoffi wylio ar S4C ydi Stwnsh Sadwrn. Yn ddiweddar ges i gyfle i fod ar y rhaglen a chael 2 'Pei Stwnsh' ar fy wyneb! Roedd fy nghefndryd o'r cymoedd, Joseff a Bedwyr yn aros efo ni ar y pryd a nhw gafodd y cyfle i roi pei ar fy ngwyneb. Cafodd Erwen fy mrawd bach godi llaw ar y sgrin hefyd. Roedd na lot o lanast yn tŷ ni ond mi gafon ni lot o hwyl! Cefais seinydd yn anrheg am gymryd rhan. Diolch Stwnsh!"

Diolch yn fawr i chdi Twm am rannu dy hanes efo ni.





**Siarad Siop**
Cafodd genod Waunfawr fodd i fyw wrth gymryd rhan yn sioe ‘Siarad Siop’, sioe gerdd newydd gan Wasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn i bobl ifanc blwyddyn 7 a hŷn.

Wedi misoedd o ymarfer, roedd yn braf iawn gweld Ena, Llio, Llio, Sioned a Miri yn perfformio yn Galeri, Caernarfon ac yn amlwg yn mwynhau eu hunain!

Meddai Miri Siôn, “Mae wedi bod yn brofiad gwych, nid yn unig o safbwynt faint ‘da ni wedi ei ddysgu trwy wneud y sioe ei hun, o’r canu i’r dawnsio a’r actio, ond ‘da ni wedi cael gymaint o hwyl a gwneud ffrindiau newydd. Mae wedi bod yn brofiad bythgofiadwy a diolch i bawb fuodd yn ein hyfforddi ni.”

Da iawn chi genod – daliwch ati i berfformio a diddanu!

## Ysgol Waunfawr

**Merched mewn Gwyddoniaeth**
Braf oedd clywed am lwyddiant cyn-ddisgybl o’r ysgol sef Dr Sioned Fôn Jones. Fel gwyddonydd o Gymru, mae Sioned wedi cael ei chynnwys ar restr cylchgrawn Forbes o’r bobl fwyaf dylanwadol o dan 30 oed ym maes gwyddoniaeth a busnes drwy Ewrop. Llongyfarchiadau mawr iddi a braf fyddai cael ei chroesawu yn ôl i’r ysgol i drafod ei gwaith gyda’r plant rhyw ddydd.

### Cyngerdd Ysgol Waunfawr 9.5.24 (Canolfan Waunfawr) am 5.30pm



**Eitemau Eisteddfod yr Urdd gan gynnwys:**
- **Unawdau Canu**
- **Llefaru Unigol**
- **Parti Unsain**
- **Parti Llefaru**
- **Cyflwyniad Theatrig**
- **Sêr Waunfawr - dawnsio disgo**
- **Unawdau offerynnol**

**Perfformiadau arbennig gan:-**

**Miri Siôn ac eraill**

**Bydd elw y noson yn cael ei ddefnyddio i dalu costau bws Llangrannog ar gyfer Blwyddyn 5+6. Diolch o galon am eich cefnogaeth.**

**Bydd raffl wrth y drws**

**Tocynnau ar Gateway: Oedolion £3**
**Plant Ysgol Brynrefail £2**

**Plant Ysgol Waunfawr am ddim.**

(Bydd tocynnau i aelodau o’r gymuned wrth y drws).

## Yr Wyddfa’n dioddef.... a Llanberis yn gwegian

Mae tymor yr haf ar gychwyn, a phentref Llanberis yn paratoi unwaith yn rhagor am fwy a mwy o ymwelwyr yn heidio i’r ardal gan ychwanegu’n sylweddol at broblemau gor-dyrru a diffyg parcio. A’r Wyddfa, wrth gwrs, sy’n denu, gyda mwy a mwy o ‘ddigwyddiadau’, am ddiffyg gwell disgrifiad, yn cael eu cynnal ar y mynydd. Cysidrwch yr hyn sy’n cael ei gynnal ar Sadyrnau yn unig o hyn hyd ddiwedd Gorffennaf :

- 11eg Mai: ROC sef cystadleuaeth triathlon o Abersoch i gopa’r Wyddfa
- 18ed Mai: *Catchampions*. Taith gerdded noddedig i gasglu arian er gwarchod cathod
- 25ain Mai: Taith gerdded noddedig i godi arian at Elusen McMillan
- 22ain Mehefin: *Snowdonia for Science*. Taith gerdded noddedig i godi arian at ddioddefwyr Cancr y Prostate
- 29ain Mehefin: *Snowdonia Seven*. Cystadleuaeth antur i aelodau o’r heddlu yn unig – yn gorffen ar gopa’r Wyddfa
- 7fed Gorffennaf: *Snowdonia Sunrise Trek*. Taith gerdded noddedig i godi arian i Helen and Douglas House – hosbis i blant yn Swydd Rhydychen
- 13eg-14eg Gorffennaf: Wyddfa 24. Cystadleuaeth cerdded/rhedeg i unigolion neu dimau i fynd i’r copa ac yn ôl gymaint o weithiau a phosib mewn 24 awr
- 14eg Gorffennaf: XTERRA. Cystadlaethau rhedeg gyda dewis o bellter – 10 cilomedr, Hanner Marathon, Marathon ac Ultra Marathon
- 20ed Gorffennaf: Ras yr Wyddfa.

Ac y mae mwy mae’n siŵr...

Codi arian yw nôd y mwyafrif o’r digwyddiadau hyn, a hynny at wahanol elusennau digon clodwiw. Ond teg gofyn a oes rhaid eu cynnal ar yr Wyddfa? Oes angen dringo’r Wyddfa i warchod cathod? Oes rhaid i hosbis o Swydd Rhydychen ddod yr holl ffordd i Lanberis i godi arian?



Gellir dadlau hefyd fod yr holl bobl sy’n cymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau hyn yn dod ag arian i’r ardal – lletygarwch, bwytai ayyb.

Mae dwy ochr i bob ceiniog. Beth yw eich barn chi?

**Gwyndaf Hughes**

## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Croesawyd pawb i gyfarfod mis Mawrth gan ein llywydd Pat Jones. Hwn oedd ein Cyfarfod Blynyddol a balch oeddym o groesawu Mrs Margaret Lloyd Jones, Cadeirydd y Ffederasiwn atom fel Cynghorydd. Estynwyd croeso hefyd i Mr Gareth Jones a ddaeth i'n diddori gyda'i ddatganiadau ar y piano.

Dechreuwyd y noson gyda'r gwaith o ddewis Swyddogion ar gyfer y flwyddyn. Roedd unfrydedd ar i'r swyddogion presennol barhau yn eu swyddi. Diolchodd y llywydd i bob un o'r aelodau am eu cefnogaeth a'u gwaith cyson drwy'r flwyddyn yn enwedig Mrs Vera Price am edrych ar ôl ein cyllid ac i Carol Houston am ei gwaith fel ysgrifenyddes.

Cyn dechrau'r cyfarfod, roedd pob aelod wedi cael cyfle i ddarllen llythyr y mis, y daflen gyllid a chofnod o hanes ein cyfarfodydd dros y flwyddyn aeth heibio. Diolchodd Mrs Margaret Lloyd Jones am yr holl waith amrywiol a diddorol yr oedd y gangen wedi ei gyflawni dros y flwyddyn.

I ddathlu Gŵyl Ddewi roedd nifer o'r aelodau wedi paratoi lluniaeth arbennig iawn yn cynnwys cawl cennin, bara brith a theisennau cri. Cafodd pawb fwynhau y wledd tra yn cael eu difyrru gan Mr Gareth Jones gyda detholiad arbennig o ganeuon enwog y Noson Lawen o ddyddiau Sam Jones, Maimie Noel Jones a Thriawd y Coleg. Mwynhawyd yr arlwy a chael ein hatgoffa o'r alawon adnabyddus. Diolchwyd yn gynnes iawn am noson bleserus gan Mrs Margaret Lloyd Jones.

**Profedigaeth**
Yn annisgwyl yn Ysbyty Gwynedd ar 25ain o Fawrth, bu farw Lesley Griffith, Fferm Bryn Derw. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'i phriod Llystyn, y plant Llŷr a Nia a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.



## Ysgol Brynrefail

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r disgyblion hynny gymerodd ran yn eisteddfoau'r Urdd yn ystod mis Mawrth.

Yn yr Eisteddfod Sir dan bymtheg yn Ysgol Brynrefail daeth Côr bl 7-9 yn ail. Yna yn yr Eisteddfod Sir ar gyfer disgyblion 15 i 19 daeth Côr bl 10-13 hefyd yn ail. Ar yr un noson daeth y Parti Bechgyn bl 7-13 yn ail ac felly hefyd y Parti Llefaru bl10-13.

Yn yr eisteddfod honno hefyd enillodd Beca Morris yr unawd o sioe gerdd i'r rhai dan 19 oed.

Diolch i Mrs Anwen Edwards, Mr Huw Harvey a Mrs Lowri Roberts am hyfforddi ac i'r disgyblion i gyd a gymerodd ran.





# Un funud fach …

## DROS GRIST

Mae braidd yn fuan i mi ddechrau sôn am yr Etholiad Cyffredinol. Does dim rheidrwydd ar Lywodraeth bresennol San Steffan i gynnal Etholiad tan Ionawr 28ain, 2025. A chan mor amhoblogaidd yw'r Llywodraeth honno ar hyn o bryd, mae'n debygol o oedi rhag cyhoeddi dyddiad yr Etholiad. Ond o wybod y daw'r Etholiad o fewn y naw mis nesaf, bydd y pleidiau gwleidyddol am y gorau i berswadio'r etholwyr i'w cefnogi. Ac mi wnân nhw hynny trwy gyflwyno eu maniffesto a'u bwriadau er mwyn i bawb wybod dros beth y maen nhw'n sefyll a beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae angen eglurder ar blaid wleidyddol, ac mae angen hynny hefyd ar Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist. Yn achos y naill a'r llall, mae angen yr eglurder hwnnw ar bobl oddi allan i'r rhengoedd. Mae'r pleidiau'n ymwybodol o'r angen i'w cyflwyno eu hunain a'u syniadau i bobl nad ydyn nhw'n aelodau na chefnogwyr. Ac onid dyna a wna'r Eglwys Gristnogol hefyd wrth iddi gyflwyno ei neges i bobl? A Duw a ŵyr yn well na'r un ohonom fod angen gwneud hynny yng Nghymru heddiw. Ers blynyddoedd, aeth yr Efengyl yn ddieithr i bobl ein gwlad, ac aeth pobl ein gwlad yn ddieithr nid yn unig i'r Efengyl ond i'r Eglwys Gristnogol ac i'r Ffydd Gristnogol. Ac o ganlyniad, trasiedi pethau yw nad oes gan filoedd lawer o'n cyd-Gymry unrhyw syniad am yr hyn y mae Cristnogion yn ei gredu nac yn ei gynnig. Ac felly, diolch i Dduw am bob ymdrech a wneir i gyflwyno'r Efengyl, ar air ac ar weithred.

Ond cyn bwysiced – os nad pwysicach hyd yn oed – yw bod y bobl sydd oddi mewn yn gweld pethau'n glir. Yn sicr, bydd angen i aelodau plaid wybod beth yw ei daliadau a'i pholisïau cyn mentro allan i ganfasio drosti. Ac mae'n hanfodol bod pobl yr Eglwys Gristnogol yn sicr o'u pethau. Os nad ydyn nhw'n gwybod beth yw'r Efengyl, pa obaith fydd ganddyn nhw o'i chyflwyno i eraill? Dros y ganrif ddiwethaf, mae'n beryg bod eglwysi Cymru wedi treulio llawer o'u hamser yn dweud wrth bawb beth nad ydyn nhw'n ei gredu. Yn eu hymdrech i fod yn berthnasol ac yn ddylanwadol, mi fu'r eglwysi'n euog o roi'r argraff nad yw'r hyn a gredir mor bwysig â'r hyn a wneir. A chanlyniad hynny yw'r marweidd-dra a dryswch presennol.

Ers blynyddoedd, oddi mewn i'r eglwysi – heb sôn am oddi allan iddyn nhw – mae ansicrwydd mawr ynglŷn â'r hyn a gredwn am Dduw ac am Iesu Grist ac amdanom ni ein hunain. Priod waith yr Eglwys Gristnogol yw cyflwyno'r newydd da am Iesu Grist: Iesu Grist a'i gariad; Iesu Grist a'i groes; Iesu Grist a'i fedd gwag; Iesu Grist a'r gobaith sydd trwyddo. Ond os nad yw'r Eglwys ei hun wedi ei hargyhoeddi o hynny, pa obaith sydd ganddi o wneud y gwaith? A pha obaith sydd ganddi o rannu a gweithredu cariad Crist os nad yw wedi ei hargyhoeddi o ddyfnder cariad aberthol Duw a ddangoswyd ym mywyd a marwolaeth ei Fab Iesu Grist? Mor bwysig yw gwybod dros beth a thros bwy y safwn.

***JOHN PRITCHARD***

**Cyswllt yr ysgol gyda Tyddyn Teg Gwanwyn 2024**

Mae nifer o'n disgyblion yn cael budd mawr o fynychu sesiynau garddio yn Nhyddyn Teg sef Siop Fferm dafliad carreg o'r Ysgol. Eleni, mae'r disgyblion wedi bod yn datblygu ein llecyn ymhellach o fewn Tyddyn Teg drwy blannu coed ifanc, dan arweinyddiaeth Charlotte, i greu gwrych o goed cynhenid – coed cyll, ieuwydden a choed ffawydd yn bennaf. Er gwaetha'r tir gwlyb a mwdlyd mae pawb wedi ymdrechu yn wych, a llwyddwyd i blannu dros ddwsin o goed ifanc.

Fe fuodd rhai yn cynaeafu rhywfaint o lysiau o'r planwyr uchel – cennin, brocoli piws a dail bresych deiliog yn bennaf, i roi cyfle i'r rhai o'r disgyblion baratoi stir-fry llysieuol yn ôl yn yr Hafan gyda Mrs Bethan Williams, gan ddefnyddio rysáit wedi ei rannu gan Charlotte o Dyddyn Teg.

Jac a Logan fuodd wrthi'n paratoi, coginio ac yn ddigon dewr i flasu'r pryd ar y diwedd. Braidd rhy sbeislyd a phoeth oedd y dyfarniad!

Yr wythnos ddilynol, plannwyd rhywfaint o goed a phlanhigion ffrwythau; amrywiaeth o goed afalau ac eirin, un ffigysen ac un goeden llus. Dysgodd Morgan a Rhodri bod angen pridd asidig ar y llusen i dyfu'n iach ac felly roedd rhaid paratoi'r twll yn benodol i'r planhigyn yma ac yn wahanol iawn i'r coed ffrwythau eraill.
















**Llwyddiant ysgoloriaeth a mynediad i Brifysgol Aberystwyth**

Y tymor diwethaf roedd hi'n gyfnod sefyll arholiadau mynediad i brifysgolion ac ymgeisio am ysgoloriaethau. Mae sawl disgybl o flwyddyn 13 wedi sefyll yr arholiadau hyn ac rydym yn parhau i aros am newyddion a fuont yn llwyddiannus yn eu ceisiadau i rai prifysgolion. Ar ddiwedd mis Mawrth fe ddaeth newyddion da o Brifysgol Aberystwyth bod tri o fyfyrwyr y chweched dosbarth wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i gael mynediad yno. Dyma ychydig o hanes y tri.

Aron Jones – ein Prif Ddisgybl sy'n dod o Borthmadog ac yn teithio yma'n ddyddiol ers dros flwyddyn a hanner. Derbyniodd Aron gynnig diamod i astudio Seicoleg yn Aberystwyth.

Anest Jones – un o'n dirprwy Brif Ddisgyblion hefyd wedi derbyn cynnig diamod i astudio Gwyddoniaeth Biofilfeddygol ac ysgoloriaeth gwerth mil o bunnau'r flwyddyn.

Elliw Strain – disgybl blwyddyn 13 sydd hefyd yn teithio yma o bellter sef o Ben Llŷn. Llwyddodd Elliw i dderbyn cynnig diamod i astudio'r Gyfraith.

Llongyfarchiadau mawr i'r tri a phob lwc iddynt gyda'u hastudiaethau yn Aberystwyth wedi'r haf. Edrychwn ymlaen i glywed newyddion da am y disgyblion ymgeisiodd am ysgoloriaethau mynediad Prifysgol Bangor yn fuan.

# LLANRUG

**Profedigaeth**
Estynnwn gydymdeimlad llwyraf â theulu David Sinclair (Humph) Williams, 19 Rhos Rug, fu farw'n dawel yn Ysbyty Glan Clwyd yng nghwmni ei deulu ar 14eg o Fawrth. Priod cariadus Wan, tad cariadus Iola a'i phartner Simon a brawd annwyl Bet. Colled fawr i'w deulu a'i ffrindiau oll.

Rydym yn danfon cydymdeimlad dwysaf i Rolant a Carys Wynne, Fron Hyfryd Uchaf ar golli brawd a brawd-yng-nghyfraith ddiwedd Mawrth. Colled fawr i'r teulu a'r ffrindiau oll. Rydych yn ein meddyliau yn y cyfnod anodd yma.

Rydym yn meddwl llawer am deulu Gwyn Michael Edwards o Gefn Elan, fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar yr 20fed o Fawrth. Gŵr y ddiweddar Edith Ann Edwards, tad annwyl Dawn a Dylan, taid a hen-daid balch ei holl wyrion, wyresau a gor-wyrion i gyd. Colled fawr i'w holl deulu a'i ffrindiau.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Geraint Parry, Bro Dawel sydd wedi colli ei briod annwyl Margaret a hynny yn frawychus o sydyn. Roedd yn fam gariadus i Gethin ac Iwan a'u gwragedd Jane a Gwenno ac yn nain arbennig iawn i Beca a Guto ac i Now a Neli. Rydym yn meddwl yn annwyl iawn amdanoch a'r teulu cyfan yn eich profedigaeth lem.

**Pob lwc**
Dymuniadau gorau a phob lwc i holl blant a phobl ifanc y cylch fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sydd i'w chynnal yn Meifod ddiwedd mis Mai.

Mawr ydy'r diolch i'r holl athrawon a'r hyfforddwyr fu wrthi'n brysur yn dysgu a meithrin talent mewn cystadlaethau amrywiol dros y misoedd diwethaf, ac rydym yn anfon llongyfarchion gwresog i bawb ar wneud mor wych ac ar gyrraedd y Genedlaethol. Mae'r diolch yn fawr i'r Urdd hefyd am yr holl brofiadau gwerthfawr a roddir i blant a phobl ifanc Cymru bob blwyddyn.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Elisabeth a Ronald Pleming, Bryn Moelyn ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd Eiri Grug – merch fach i Mari ac Aled. Pob dymuniad da i'r teulu bach yng Nghaernarfon.

**Capel y Rhos**
Cyflwynwyd £328 i'r capel gan Donna Taylor yn dilyn noson lwyddiannus iawn yn nhafarn Penbont. Trefnwyd gig, gyda Gwilym Bowen Rhys yn cynnal y noson. Mae Donna yn un o ferched gwerthfawr iawn Llanrug gan ei bod yn trefnu nosweithiau fel hyn gan godi arian i fudiadau, clybiau ac elusennau lleol. Diolch o galon i ti Donna am dy holl waith arbennig.

**Oedfaon mis Mai**
5ed Mai – Parch Eric Jones
12fed Mai – Oedfa'r Ofalaeth a Chymun yng ngofal ein Gweinidog
19eg Mai – Miss Dorothy Williams
26ain Mai – i'w threfnu.

**Gwellhad Buan**
Anfonwn ein cofion at Mrs. Enid Williams, Rhos Rug sydd wedi cael damwain eto ac wedi torri ei braich. Ar hyn o bryd mae hi'n cael gofal yn Ysbyty Alltwen.

Rydym yn anfon ein cofion hefyd at Mrs Megan Roberts, Gregynog sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Mae bellach wedi cyrraedd adref. Pob dymuniad da iddi.

**Boreau Coffi Ambiwlans Awyr**
Cododd boreau coffi Llanrug a Phenisarwaun ar gyfer yr Ambiwlans Awyr y swm ardderchog o £461.00.

Diolch i bawb a fu'n helpu ac a gyfrannodd mewn llawer modd.

**Côr Clychau'r Grug**
Anfonir ein cydymdeimlad llwyraf a Glenys, arweinydd annwyl a chydwybodol y côr am flynyddoedd, yn ei phrofedigaeth lem o golli Jenkin, gŵr cariadus a bonheddig a thad a thad yng nghyfraith hoff a thaid balch Evan. Yn meddwl amdanoch fel teulu yn Rheidol, 40 Trenos Gardens, Bryncae, Llanharan, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf.

**Merched y Wawr Llanrug**
Ar y 9fed Ebrill, estynnwyd groeso cynnes i bawb gan ein Llywydd Bethanne a chanwyd cân y Mudiad gyda Susan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan rai o'n haelodau. Anfonir ein cofion anwylaf at Megan wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd â Carys Wynne a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli brawd yng nghyfraith annwyl. Llongyfarchwyd Joseff, wŷr Carys ac Arwel ar ennill ei bumed cap i dîm Rygbi Cymru dan 18 oed.

<u>Prosiect y Llywydd Cenedlaethol, Geunor Roberts, 2023-2025 at Ambiwlans Awyr Cymru</u>
Mae dros £5,000 wedi'i gasglu'n barod wrth werthu sgarffiau a chadwynni. Mae pryderon am safle Dinas Dinlle a'r Trallwng a gobeithir y bydd ateb cadarnhaol cyn diwedd Ebrill. Gwahoddir aelodau'r Pum Rhanbarth i fynychu Gŵyl 2024 yn Neuadd Bentref Abersoch Sadwrn 11eg Mai i ddechrau am 9.45yb. Y gôst fydd £28 yn cynnwys coffi a chinio. Trefnwyd rhaglen lawn ac






**Hafan Elan**
Llongyfarchiadau i Beverley a'i mam Cath ar dderbyn tystysgrif Hylendid Bwyd gyda 5 seren! Mae hyn yn dilyn ymweliad cwbl ddi-rybudd gan weithiwr o Safonau Iechyd a Diogelwch Gwynedd.

Cofiwch fod y caffi ar agor i bawb ar ddydd Llun o 10.45am tan tua 1.00pm o'r gloch ac mae bwyd blasus iawn a rhesymol ar y fwydlen.

I ddathlu'r Pasg cawsom wledd – y tro hwn o datws pum munud a chacen i bwdin. Cafodd pawb ŵy Pasg ac roedd Helfa Wyau wedi ei threfnu ar gyfer y criw ifanc sef Andrea, Elain, Bella a Nona.

Cawsom gystadleuaeth Addurno Het y Pasg ac roedd y cynnyrch werth eu gweld. Yn fuddugol roedd Catherine Dolafon, Nona o Lanberis oedd yn ail a Mai Davies yn drydydd. Aleshia o Gaernarfon oedd y beirniad, a diolch unwaith eto i Beverley a'i mam am



drefnu'r diwrnod difyr tu hwnt.

Apêl – Os oes gennych gardiau cyfarch – pen-blwydd, llongyfarchiadau, cyfarchion, mi fyddem yn hynod ddiolchgar i'w derbyn yn Hafan Elan gan ein bod yn ailgylchu cardiau bob pnawn Mawrth rhwng 2.00 a 4.00pm.

Maent ar werth am 70c yr un. Bargen!

agorir yr Ŵyl gan grwp adloniant Anni Llŷn ar ran Sefydliad Elusen 'Dysgwyr Disglair Llŷn' a Ffion Wynne.

10fed Mai am 7.00pm cynhelir 'Noson Celf a Chrefft Merched y Wawr Arfon' yn Neuadd Tregarth. Bydd eitemau ar gyfer Cystadleuaeth Radi Thomas, Sioe Llanelwedd yn cael eu beirniadu ynghŷd ag arddangosfa o waith crefft yr aelodau. Gofynnir i aelodau ddod ag eitemau o'u gwaith i'w harddangos. Gwestai y noson yw Anna Pritchard. Bydd y noson yn agored i bawb - yn aelodau a chyfeillion - gyda mynediad yn £5. Diolchir i Len a Margaret ac aelodau Cangen Tregarth am drefnu'r lleoliad a'r baned. Ym mis Mai cawn wybodaeth am Daith Gerdded y Rhanbarth a gwybodaeth ar gyfer Sioe Llanelwedd.

Gwraig wâdd y noson oedd Gwenan Williams yn olrhain hanes 'Gweilch Glaslyn'. Bydd pawb sy'n gyfarwydd â hanes Glaslyn yn gwybod y cafodd nyth Glaslyn ei adeiladu'n wreiddiol gan y gweilch pysgod eu hunain yn ôl yn 2004 gyda'r nyth ar frig uchaf pinwydden arian. Eleni




mae gweilch Glaslyn yn dathlu ugain mlynedd ac wedi bridio ers 2004. RSPB oedd yn gyfrifol am y ganolfan wylio gyntaf ym Mhont Croesor nes i grŵp o selogion bywyd gwyllt lleol ymgymryd â rheolaeth y prosiect yn 2013. Dechreuwyd adeiladu canolfan ymwelwyr yn 2014 ac fe'i hagorwyd gan Iolo Williams. Cafwyd cyngor i adeiladu nyth artiffisial yn yr un goeden mewn lle mwy diogel gan Roy Dennis. Magodd pâr Glaslyn ddau gyw yn llwyddiannus ar 28ain Mawrth, 2005. Dyma'r nyth sy'n dal i sefyll.

Cyn i'r gweilch ddychwelyd bob gwanwyn, gwneir gwaith cynnal a chadw blynyddol ar y nyth gan 'Gyfeillion y Gweilch'. Unwaith y daw'r gweilch bydd y ceiliog yn casglu rhan fwyaf o'r deunydd nythu. Ar 26ain Mawrth eleni am 12.40pm glaniodd gwalches, Elen, ac yna ar 30ain Mawrth dychwelodd ei chymar, Aran, am 16.56pm, gyda hyrddyn mawr yn ei big.

Denir miloedd o bobl o bell ac agos i'r ganolfan. Mae'r elusen yn dal i fynd gyda diolch i gefnogaeth di-baid ei haelodaeth, ei chefnogwyr ynghŷd ag oriau o waith diflino gwirfoddolwyr a'r ymddireidolwyr sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd am ddim. Ni ellir byth warantu na fydd problemau'n codi yn ystod y tymor bridio ond trwy archwiliad trylwyr bob blwyddyn gwneir popeth posibl i atal unrhyw broblemau y gellid bod wedi'u hosgoi. Cyfeiriad y ganolfan os hoffech ymweld yw Pont Croesor, Llanfrothen, Gwynedd.

Diolchwyd i Gwenan am noson hynod ddifyr ac addysgiadol gyda phenblwydd hapus yn ugain oed i'r ganolfan a phob dymuniad da am flynyddoedd i ddod.

Ar 14eg Mai cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol a gobeithir cael Bwrdd Gwerthu ar y noson. Bydd cyfle i drefnu gwibdaith a chinio ar gyfer dydd Mawrth, 19eg Mehefin.



Holiadur ymgynghoriad cyhoeddus Strategaeth Llifogydd Lleol Drafft Cyngor Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD

Rydym eisiau barn y cyhoedd, partneriaid risg ac awdurdodau cyfagos am ein Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol drafft.

Gallwch lenwi'r holiadur:

- Ar-lein drwy ymweld â'r wefan: **www.gwynedd.llyw.cymru/dweudeichdweud**
- Drwy gael copi papur o'ch llyfrgell neu Siop Gwynedd Leol.
- Drwy ffonio derbynfa Penrallt (01286 679 426) am gymorth ychwanegol ac am gopi papur.

Mae'r holiadur ar agor tan y 5ed o Fai.

Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS

DYLAN GRIFFITH

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol

*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

# Ysgol Llanrug




**Trip i Llanberis**
Cafodd blwyddyn 3 a 4 amser gwych yn Llanberis o dan arweiniad Arete. Diolch mawr i Emily, Dom a Mary o'r Ganolfan. Roedd y malws melys wedi'u tostio yn hyfryd.




**Rhedeg i'r Brig**
Llongyfarchiadau mawr i Poppy Collins o flwyddyn 5 a ddaeth yn fuddugol yng nghategori'r merched yn ras Tan y Fran. Ras sy'n rhan o gyfres nos Fawrth Eryri Harriers oedd y ras hon ac mae Poppy yn bwriadu rhedeg rhain yn wythnosol! Amdani! Pob Lwc Poppy!

**Bingo**
Roedd Neuadd yr Ysgol dan ei sang yn ddiweddar ac yn orlawn ar gyfer y BINGO! Diolch i Ffrindiau Ysgol Llanrug am drefnu, i bawb a fu'n cynorthwyo efo'r noson, i bawb am yr holl wyau Pasg ac i chi OLL am gefnogi. Braf gweld cymaint o deuluoedd a chyn-ddisgyblion yn cefnogi.

**Actio**
Daeth Mari Elen o RAGARUG atom i ddysgu technegau actio, bod yn greadigol a defnyddio dychymyg. Cafodd y plant lawer o hwyl ac rydym yn diolch i Mari am ei gwaith.



**Stroliwch a Rholiwch**
Beicio, beicio, beicio. Rydym wedi bod yn cefnogi ymgyrch Stroliwch a Rholiwch! Llawer o'r plant wedi dod i'r ysgol ar eu beic, sgwtyr neu gerdded. Cafodd y plant gyfle i ennill gwobrau.



**Eisteddfod Yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i'r ddau yma ar gael cyntaf yn y gystadleuaeth Dawns Stepio Grŵp yn yr Eisteddfod Ddawns. Diolch i Mr Jones am hyfforddi. Ymlaen i Faldwyn!




**Bore Coffi Masnach Deg**
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ein bore coffi yn ddiweddar. Cawsom wledd o baneidiau, cacennau a pherfformiadau gan blant yr ysgol. Bore gwych i godi arian at elusen Masnach Deg.

**Diolch yn fawr**
Mae'r ysgol wedi ffarwelio gyda Mr Dylan Lloyd Jones fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug yn ddiweddar. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Mr Jones am ei gyfraniad nodedig a gwerthfawr fel Cadeirydd Corff Llywodraethol yr Ysgol am dros 10 mlynedd, gan arwain yr ysgol trwy ddau Arolwg Estyn. Fel cyd-ddisgybl yn yr ysgol mae ei ymroddiad a'i arweiniad wedi bod yn amhrisiadwy inni oll o fewn yr ysgol ac ar y Corff Llywodraethol.



# Golau Arall - llyfr ac arddangosfa'r artist lleol Glyn Price




Mae Glyn Price, yr artist lleol poblogaidd, wedi mentro i'r byd cyhoeddi drwy gyhoeddi llyfr newydd sbon, *Golau Arall*. Bydd y llyfr yn cael ei lansio yr un pryd â chychwyn arddangosfa newydd o waith Glyn yn Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog ar 12fed Mai.

Mae Glyn yn wreiddiol o bentref Cwm-y-Glo ac mae bellach yn byw gyda'i wraig Mari a'u merch Gwen yn ardal Caernarfon.

Dros y blynyddoedd mae Glyn wedi arddangos ei waith mewn nifer o orielau a sioeau unigol gan gynnwys Plas Glyn y Weddw, Oriel Môn, Ffin y Parc, Galeri Caernarfon, Royal Cambrian Conwy, Oriel Ger y Fenai, Lion Street Gallery a nifer eraill.

Nid yn unig y mae Glyn yn arlunydd tirluniau ond mae hefyd wedi gweithio dros y blynyddoedd ar nifer o brosiectau a sesiynau celfyddydol a llesiant sydd yn cynnwys 'Llesiant i Mi', 'Ysgolion Creadigol Arweiniol' a 'Celf am Les' gyda phobl ifanc trwy Ieuenctid Gwynedd.

Fel arlunydd, mae Glyn hefyd yn brysur gyda chomisynau preifat, ac mae ei waith wedi ei werthu dramor mewn gwledydd fel Canada, Ffrainc, Awstralia a'r Iseldiroedd. Er ei fod bob tro wedi bod mewn cyflogaeth yn gweithio gyda phobl ifanc, cymunedau ac o fewn y sector addysg, mae wedi bod yn driw i'w gelf ac yn parhau i arlunio a pheintio gymaint posib.

Bod yn driw i'w gelf arweiniodd Glyn at y syniad o gyhoeddi llyfr.

Meddai Glyn,

"Ges i'r syniad i greu y llyfr ar ôl y cyfnod clo ac amser Cofid. Dwi yn falch fy mod wedi cael hyd i'r hyder i fynd ymlaen gyda'r syniad ac i gysylltu gyda Gwasg y Bwthyn. Mae'r llyfr ar gyfer unigolion o bob oed, i roi cyfle i arafu a bod yn fwy diolchgar ac ymwybodol o'r hyn sydd ganddom ni'n barod. Yr hyn dwi yn ei wneud yn y llyfr ydi cynnig cefnogaeth syml a thawel er mwyn hybu lles a meddylfryd iach, drwy ddefnyddio geiriau yn gyferbyn a darluniau dyfrliw o dirweddau dwi wedi bod yn eu cerdded neu'n treulio amser ynddyn nhw.

Dwi yn ddiolchgar iawn i Gerwyn a holl staff Gwasg y Bwthyn yng Nghaernarfon, i Rhian Cadwaladr ac i Iola Ynyr am ei ddarllen ac am eu geiriau caredig, ac i bawb arall sydd wedi cydweithio gyda fi dros y blynyddoedd i wneud y llyfr yma yn bosib. Diolch hefyd i Gyngor Llyfrau Cymru am rhoi'r cyfle i mi."

Mae *Golau Arall* yn lyfr bach llesiant llawn creadigrwydd i roi cyfle i ni arafu, myfyrio a bod yn bresennol yn y foment. Mae'n gyfuniad o eriau positif a thirluniau gogledd Cymru. Mae'r llyfr ar gael yn ein siopau llyfrau lleol.

I gyd-fynd â cyhoeddi'r llyfr bydd gwaith celf Glyn yn cael ei arddangos yn Oriel Plas Glyn y Weddw. Mae croeso cynnes i bawb i fynd draw i'r Oriel yn Llanbedrog ar y 12fed o Fai, i'r agoriad swyddogol am 1.30pm, ac yna mi fydd lansiad y llyfr gyda sgwrs yn cychwyn am 3.30pm.

Meddai Glyn,

"Mae'r gwaith celf yr arddangosfa yma am olau, am godi ar ôl cyfnod Cofid a'r amser clo yma yng Nghymru a gweddill y byd. Mae'r gwaith am ddathlu beth sydd gennym ni yma ar ein stepan drws.

Rwy'n ymateb i'r tirlun drwy ddefnyddio iaith bersonol fy hun ac wedyn yn archwilio'r broses drwy weithio arno yn fy stiwdio. Yn y stiwdio, rwy'n mwynhau



archwilio technegau a phrosesau. Yn syml, rwy'n peintio'r byd o 'nghwmpas, y tir, bywyd llonydd a sefyllfaoedd bob dydd.

Credaf mewn creu darnau gwreiddiol a gweld y byd yn newydd, gan ymateb i'r hyn sydd o fy mlaen. Mae gen i ddiddordeb mewn lliwiau a siap y tir, yn ogystal a'r hanes a diwylliant eang sydd gennym yng ngogledd Cymru sydd wedi ei weu i mewn i'r chwareli llechi a'r mynyddoedd.

Dwi eisiau i bobl sylweddoli pa mor lwcus ydym ni yn byw yn yr ardal yma ac i wneud y mwyaf o beth sydd gennym yma yn barod ar ein stepan drws.

Mae'r tir yn bwysig i fi a hoffwn barhau i archwilio'r awyr agored. Yn syml rwy'n ymateb i'r tir ble cefais fy ngeni, gan geisio dal moment mewn amser drwy broses greadigol."

I weld rhagor o luniau gan Glyn, ewch i bori drwy ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol - www.glynprice.com / Instagram: @glynprice / https://instagram.com/glynprice / Facebook: CELF GlynPrice ART https://www.facebook.com/GlynPriceArt




Welsoch chi ogoneddau Llanrug a Chlegir ar raglen Am Dro ar S4C ddiwedd mis Mawrth? Mae'r gyfres boblogaidd yn dilyn 4 person wrth iddynt dywys ei gilydd ar eu hoff deithiau cerdded o amgylch eu hardal leol.

Darlledwyd Pennod 9 o'r 7fed gyfres ar 26ain o Fawrth, a dyna pryd y gwelwyd Osian Edwards o Lanrug yn arwain taith o Penbont ar hyd lôn Stabla cyn aros i gael picnic ym Mhen Llyn. Bu'r criw yn dysgu am hanes ffrwydriad Cwm y Glo cyn dringo'r llethr i fyny am Glegir er mwyn gorffen y daith gyda'r olygfa orau yn y byd (wrth gwrs?!).

Fe wnaeth Osian joban wych yn dangos bro'r *Eco* ar ei gorau, diolch i ti Osian.





Wnawn ni ddim datgelu beth oedd y canlyniad, oherwydd mae hi dal yn bosib i chi wylio'r bennod ar iplayer neu Clic S4C. Chewch chi ddim eich siomi!

# Gwrthwynebu Cynnig i Safle Gwaith Malu Concrit yng Nghaernarfon




Mae Caernarfon Lân yn griw o drigolion pryderus sy'n ymgyrchu yn erbyn dau ddatblygiad sydd ar y gweill yn hen safle gwaith brics y dref.

Y cyntaf o'r cynigion gan Jones Brothers Ltd yw gorsaf nwy deg injan, 20MW i gynhyrchu trydan i'w werthu i'r Grid Cenedlaethol ar gyfnodau o alw mawr. Ymysg y pryderon niferus ynghylch y cynnig hwnnw mae allyriadau gwenwynig a llygredd sŵn, a'i effaith niweidiol posib ar iechyd pobl leol a byd natur. Mae'r ail gynnig newydd yn gais i osod gwaith malu a phrosesu concrit ar yr un safle.

Mae Gretel Leeb, sy'n cadeirio'r pwyllgor sy'n ymgyrchu yn erbyn y ddau gynnig, wedi cydlynu'r gwaith o ysgrifennu dwy Ddogfen Gwrthwynebiad sylweddol sy'n nodi rhesymau technegol ac amgylcheddol pam y dylid gwrthod y ddau gynnig. Yn ôl Gretel:

"Mae'r grŵp wedi ymgyrchu ers misoedd yn erbyn y gwaith nwy arfaethedig yng Nghaernarfon, gan nodi'n glir y bygythiadau amgylcheddol a'r bygythiadau i iechyd pobl leol a fyddai'n cael ei achosi.

"Yna, cyn y Nadolig, daeth cynigion newydd i'r amlwg ar gyfer gorsaf chwalu a phrosesu concrit ar yr un safle.

"Bydd y lleoliad arfaethedig, sef safle hen Chwarel Seiont, yn achos pryder i bobl leol. Mae wedi'i amgylchynu gan stadau tai, ysbyty, parc lleol a chaeau chwaraeon, yn ogystal ag Afon Seiont a choetir naturiol hynafol. O ystyried hyn oll, mae'n bosibl mai hwn fyddai'r safle gwaethaf posibl ar gyfer y ddau ddatblygiad yma.

"Mae gweithfeydd 'brig' nwy yn cynhyrchu lefelau uchel o sŵn pan fyddant yn gweithredu, ac maent yn gollwng nifer o nwyon niweidiol gan gynnwys NOx. Mae effeithiau'r nwyon hynny ar iechyd pobl yn cynnwys cynnydd mewn clefydau fel asthma, cyflyrau ar y galon, a niwed i'r ysgyfaint.

"Ar ben hynny mae bygythiadau difrifol posibl o ganlyniad i'r sŵn, y llwch a'r gronynnau niweidiol a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan yr orsaf goncrit arfaethedig. Hefyd, mae'n bosibl y byddai 120 lori'n ymweld â'r safle bob dydd. Mae'r bygythiad go iawn i ecosystemau lleol ac i fioamrywiaeth yr ardal hefyd yn destun pryder mawr.

"Credwn y byddai'r naill gynnig neu'r llall yn mynd yn groes i reoliadau newydd Llywodraeth Cymru a newidiadau mewn polisi cynllunio sy'n ymwneud â sŵn, llygredd aer a bioamrywiaeth."

Yn ôl Aelod y Senedd, Siân Gwenllian:

"Dw i wedi mynegi fy mhryderon ynghylch gorsaf nwy brig arfaethedig yn nhref Caernarfon mor gynnar ag Awst 2023, a dw i wedi mynegi'r pryderon hynny i Lywodraeth Cymru a fydd yn y pen draw yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar argymhellion Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. (PEDW).

"Dw i wedi ei wneud yn glir ar lawr y Senedd fy mod yn credu bod y cynnig yn groes i ysbryd a gweledigaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a thargedau hinsawdd Llywodraeth Cymru ei hun, ac y dylid ei wrthod ar y sail hwnnw.

"Ond ers hynny, mae cynigion ar gyfer gwaith chwalu concrit ar yr un safle wedi dod i'r amlwg.

"Pe bai'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, mae amcangyfrif y byddai llif y traffig yn gyfwerth ag 1 lori bob 5 munud, 10 awr y dydd, 5.5 diwrnod yr wythnos. Ar ben hynny, yn ogystal â lefelau sŵn uchel, mae'r broses chwalu concrid yn defnyddio llawer iawn o drydan a llawer iawn o ddŵr i wlychu'r llwch niweidiol sy'n cael ei greu gan y broses.

"Afraid dweud, fel sy'n wir am yr orsaf nwy, mae peryglon difrifol i iechyd a lles pobl, ac i gynaliadwyedd yr amgylchedd naturiol o'i amgylch.

"Dw i wedi gofyn am sicrwydd gan Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd y bydd yr ail gais yn mynd gerbron Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, ac na fydd yn nwylo swyddogion cynllunio yn unig. Os felly, bydd fy etholwyr yn gallu mynegi eu barn i'w cynghorwyr lleol a fydd yn eu tro yn gallu cyfleu eu pryderon i aelodau'r pwyllgor."

Tra bod y penderfyniad terfynol ar yr orsaf nwy yn nwylo Llywodraeth Cymru, bydd yn rhaid i'r cais i greu gwaith chwalu concrit fynd i Gyngor Gwynedd am benderfyniad terfynol. Mae'r cynghorydd lleol Plaid Cymru Dewi Wyn Jones yn cynrychioli ward Peblig, sy'n ffinio ar y safle arfaethedig. Mae wedi gwneud ei wrthwynebiad yn glir.

"Fel cynghorydd lleol ac Aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol yr Hendre sydd dafliad carreg i ffwrdd o'r safle arfaethedig, dw i wedi datgan yn glir fy ngwrthwynebiad i'r cynigion, ar sail y dystiolaeth bendant sydd ar gael.

"Mae ymgyrchwyr lleol wedi ei gwneud hi'n glir bod rhaid gwrthwynebu'r ddau ddatblygiad. Mae'n debygol y bydd y gwaith nwy a'r peiriant chwalu concrit yn cael eu cyflwyno fel cynigion ar wahân, ond serch hynny mae'r bygythiadau y maent yn eu hachosi i iechyd pobl leol a'r amgylchedd yr un peth."

Mae ymgyrch Caernarfon Lân wedi lansio deiseb lle gall pobol leol leisio eu gwrthwynebiad. Gellir dod o hyd i'r ddeiseb ar safle we change.org, neu drwy fynd i wefan yr ymgyrch caernarfonlan.cymru.

# Holi Hwn a Holi Hon

**Mae Leusa Llewelyn yn byw yng Nghwm-y-glo, hi yw Cyfarwyddwr Creadigol Llenyddiaeth Cymru.**

**1. Enw a ble ydach chi'n byw?**
Dwi'n byw yng Ngwm-y-glo

**2. O ble ydach chi'n dod yn wreiddiol?**
O Lanuwchllyn ger y Bala

**3. Hoff le yn y fro, a pham?**
Anodd iawn dewis, dyma un o ardaloedd prydferthaf y byd! Mae'n debyg fod nifer wedi crybwyll Clegir, Pen Llyn a'r mynyddoedd eisoes yn yr eitem hon, felly dyma ddewis mynd am dro at Lyn Tan Pant ar y llwybr beics ar hyd ymyl Llyn Padarn i geisio cael cip ar Las y Dorlan – unwaith dwi wedi gweld fflach lachar ei gôt las.

**4. Eich hoff air Cymraeg?**
Penbwl

**5. Be sy'n eich cadw'n brysur?**
Fy mabi bach deng mis oed, Gorwel, sydd (dwi'n amau) wrthi'n cynllwynio pethau mawr



o'i glywed yn siarad pwll y môr a rowlio o gwmpas y lle 'ma. Os nes i ei ddallt yn iawn, roedd yn awyddus i sefyll fel Prif Weinidog nesaf Cymru pan gyhoeddodd Drakeford ei fod am gamu o'i swydd, ond dwi wedi rhoi gwybod iddo fod rhaid cropian cyn cerdded.

**6. Be sy'n eich gwylltio?**
Diffyg dealltwriaeth canran uchel iawn o yrwyr yr ardal o sut mae *rowndabowts* yn gweithio!

**7. Be sy'n eich gwneud yn hapus?**
Crwydro'r mynyddoedd, y gwanwyn, a chlywed y gôg yn canu yn nhopiau Clegir.

**8. Oes gennych chi uchelgais i'r dyfodol, i chi eich hun neu i'r fro?**
Bûm yn lwcus i gael ymuno â Chynulliad GwyrddNi dros y blynyddoedd diwethaf – mudiad gweithredu ar newid hinsawdd sydd wedi ei leoli yn y gymuned ac yn cael ei arwain gan y gymuned. Hoffwn weld yr ardal yn arwain y gad yn genedlaethol (ac yn rhyngwladol) ar fentrau amgylcheddol, yn cynnwys twristiaeth gwyrdd.

# Ar ben arall i'r lein

Er fod y tywydd 'ma yn dal gwaith cynnal a chadw ac ati yn ôl, a dweud y gwir mae pethau yn llusgo braidd gyda'r cychod. Mae'r rhain allan ar Nantlle a Dywarchen, a bron yn barod ar Padarn hefyd. Mae'r gwaith i gael pethau'n barod ar lyn Cwellyn yn parhau, er fod gwaith eto i'w wneud ar y lanfa, gan fod defaid wedi marw ac ati wedi eu sgubo i mewn, ond oherwydd lefel y llyn mae'n amhosib a pheryglus dros ben mynd i'r dŵr i gael y lle yn barod. Er wrth gwrs mae'r cychod yn barod i'w lansio. Hefyd mi fuasai cael mwy o gymorth at y gwaith yma yn fendithiol dros ben, yn anffodus mae ymbil ar hyn yn disgyn ar glustiau byddar. Efallai buasai potel o siampên yn seremoni'r lansio yn dderbyniol, ac i'n cynhesu at y gwaith. Tony i ddreifio oddi yno wrth gwrs!

Mae nifer yn gofyn "sut mae'r sgota yn mynd eleni?". Wel pleser yw dweud er ei bod wedi bod yn araf am rai dyddiau yn dilyn agor yr afonydd ar 3ydd Mawrth, ac er y tywydd rhyfedd sydd o gwmpas, mae pethau wedi pigo i fyny yn ardderchog gyda brithyll brown reit neis yn dod i'r rhwyd. Mae rhai ar garlam yn ei thrio hi o'r Stablau i lawr am Gaernarfon, ond yn ôl pob golwg Stablau 'di'r lle i fod. Yndi, mae'n dda gweld fod y brithyll yn awyddus am y bluen ond i mi mae newyddion ardderchog wedi dod fy ffordd, a hynny yw fod sîls mawr wedi dangos eu hunain unwaith eto – enw lleol am rhain yw *sîls y gog,* mae eu maint tua 12" o gymharu a 6-7" maint sîls arferol.

I'r rhai sydd allan yn gynnar ar Padarn, mae'r sîls mawr 'ma yn debyg mewn maint i'r brithyll arian sydd i'w cael dros ddŵr dyfn y llyn, sef rhwng y landing a thomen Ffêr Injan. Y ffordd i ddweud y gwahaniaeth yw fod eich dwylo yn arian byw pan yn dad-fachu'r sîlan. Da 'de, does 'run sgotwr yn anghofio peth fel yna nagoes.

Flynyddoedd cyn i broblemau'r llyn ddod i'r amlwg, mi oedd bron yn amhosib peidio a bachu rhain o ddiwedd Mawrth i ddiwedd Ebrill. Mae'n amlwg felly eu bod yn dod o un o'r afonydd neu nentydd sy'n rhedeg i mewn i Lyn Padarn. Yn dilyn holi fe ddatgelwyd y dirgelwch i mi gan y nawr diweddar Griff Hughes a oedd yn giper ar yr fro.

Dywedodd fod archwiliad i'r union fater wedi ei wneud flynyddoedd yn gynharach, ble datgelwyd mai'r Afon Lâs, Nant Peris oedd man cenhedlu'r straen yma o eog. Y gred yw ym myd y pysgod fod sîls mawr yn mudo'n ôl fel eogiaid mwy na'r arfer, felly 'sgwn i os yw pethau ar dro am y gwell o'r diwedd? Oes yn does, mae rhyfeddodau natur yma o'n cwmpas ar ein dyfroedd, ond wedi i ni yr hen griw ddiflannu, 'sgwn i faint fydd yn ymwybodol o'r gwyrthiau yma?

Yndi cofiwch rhaid i mi fynd yn ôl bron i 40 mlynedd ers i mi ddal eog dros un pwys ar bymtheg, ond cawn weld yn y misoedd nesaf, gobeithio 'de. Tra fy mod unwaith eto yn edrych dros fy ysgwydd, dwi'n cofio'n iawn dechrau pysgota, ar Afon Gorlan, Deiniolen, a sliwod ym mhob man. 'Da ni'n lwcus iawn gweld un o'r



Sîl y Gog



Brithyll o Stablau



Y bluen lwyddianus

rhain o gwbwl heddiw.

Mae cryn hwyl hefyd ar y Dywarchen, gyda brithyll hyd at 3 phwys yn dod i'r rhwyd. Does dim digon o le yma i ddatgelu'r criw llwyddiannus, ond does dim eisiau dweud nagoes fod padelli Llanrug i weld yn dechrau cael eu bwydo!

Mae'n anodd dros ben peidio a dal sylw sut mae ein llywodraethau a chyrff eraill yn gweithredu, yn enwedig pan mae cwynion am wahanol bethau yn cael eu hanwybyddu neu eu sgubo o'r golwg dan y carped. Does ond eisiau ystyried beth sydd wedi digwydd gyda'r erlyniadau di-sail o'r postfeistri drwy'r wlad. Dim ar yr un raddfa wrth gwrs, ond mae pethau fel hyn yn digwydd o gwmpas yr hen le 'ma, faint o weithiau mae materion wedi eu reportio i'r gwahanol gyrff a dim yn cael ei wneud, ac yn waeth na dim yn cael ei anwydyddu'n llwyr.

Un enghraifft yw fod ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru wedi gwneud cyhuddiadau hollol ddi-sail yn erbyn swyddogion y gymdeithas, a thrwy hyn medda' nhw na fydd dim ceiniog o arian cyhoeddus yn cael ei wario ar unrhyw brosiect ar ddyfroedd y fro. Mae cwyn wedi ei roi i'r corff sydd yn goruchwylio'r criw yma – ble mae'r gŵyn, wel dan y carped wrth gwrs. Felly gallwch ddychmygu mae peth fel hyn yn gywilyddus ond cawn weld be' a ddaw.

Mater difrifol arall yw'r chwyn ymledol ar Lyn Padarn, mae pob math o gamau yn cael eu crybwyll i ddelio a'r peth, ond nid oes unrhyw un i weld yn sylweddoli mai'r unig ffordd i ymdrin a'r peth yw atal yr holl ddefnydd o'r llyn. Does dim cyfleusterau di-heintio unigolion na chyfarpar, felly mae'r haint yn cael ei ymledu dros y wlad – dyma beth sy'n cael ei hysbysebu ar y we fel digwyddiadau ar y llyn eleni – 27ain Ebrill - Râs yr Haul; 10fed Mai - Triathalon a Duathlon Gwladweinydd. Doedd dim dyddiad ar gyfer y canlynol – Râs Gariadus a Nofio, Gŵyl Gychod y Ddraig, Taith yr Wyddfa a Nofio Gwyllt Eryri.

Lle prysur yn de, a neb yn malio dim ond y 'sgotwrs. Tipyn gwahanol mewn llefydd eraill drwy Gymru a Lloegr ble mae'r cyhoedd yn codi i fyny yn erbyn gwahanol ffurf y llygredd sy'n amharu ar ei dyfroedd lleol.

Wel dyna ddigon o bregethu am y mis, mae hi wedi dechrau cynhesu a dwi'n mynd i gael y genweiri yn barod.

**Huw Price Hughes**



Sîls mawr – samons mawr, 'sgwn i ddaw rhywbeth fel hyn yma ymhen rhyw dair blynedd!

# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug

## 20 Chwefror 2024

**1. Derbyn croeso gan y Cadeirydd**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchwyd am bresenoldeb yr aelodau.

**2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 16 Ionawr 2024**
Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**3. Derbyn adroddiad gan Gynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**
1) Yn dilyn arolwg ym mis Tachwedd 2023 cyhoeddwyd adroddiad gan Estyn ar 25.1.24.
**Prif ganlyniadau**:
Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei seilio'n gadarn ar Gymreictod, lles disgyblion a chynnal safonau, h.y. disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae'r arweinwyr eraill yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn cyflawni eu rolau'n ddeallus.

"Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn, ac maent yn ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch diymhongar"

Un argymhelliad gan Estyn: "Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol"

Gofynnir i'r Cyngor longyfarch staff yr ysgol am y gwaith ardderchog sydd yn cael ei gydnabod yn yr adroddiad.

2) Hyfforddiant diweddar i lywodraethwyr-

a) Gweithdrefn Gormodedd 2023-24.

b)Llywodraethwyr fel Ffrind Beirniadol.

Penderfynwyd:

a)Derbyn a diolch am yr adroddiad.

b) Y Clerc i ysgrifennu at yr Ysgol i'w llongyfarch ar yr adroddiad.

4. **I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry, sef Aelodau dros Lanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd (Copiau i'w cael gan y Clerc)**

5. **Derbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**
Ymysg y materion a drafodwyd oedd

a) Adolygu'r rheoliadau ariannol.

b) Argymell talu cymaint o bethau yn uniongyrchol drwy'r banc er mwyn sicrhau arbed costau banc a chynyddu ar effeithlonrwydd o sut rydym yn gweithredu.

Penderfynwyd: a) Derbyn a diolch am yr adroddiad. b) Talu i hynny sydd yn bosib yn uniongyrchol i'w cyfrif banc.

**6. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**
Ymysg y materion a drafodwyd oedd

a) Sefydlu grwp o aelodau'r cyngor ar 'What's App'. Hyn yn bwysig pan mae aelodau/clerc yn ymweld â safle neu berson er mwyn sicrhau fod y person yn ôl o'r cyfarfod yn ddiogel.

b) Fod asesiad risg gweithio yn unigol wedi ei gwblhau ac wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

c) Fod angen creu asesiadau risg ar y canlynol - unigolion bygythiol/ treisgar/blinderus; y maes parcio; cynllun bwyd; tywydd anffafriol.

Adroddwyd ymhellach fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod a'r contractwr yn dilyn digwyddiad honedig yn y fynwent.

Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn am gyflwr y gwair yn y lle parcio yn y fynwent yn dilyn angladd diweddar mewn tywydd garw.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yn adroddiad. Cyflwyno'r gwyn am faes parcio'r fynwent at Bwyllgor y Fynwent.

**7. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**
Ymysg y materion a drafodwyd:

a) Mewn cyfarfod brys o'r is-bwyllgor trafodwyd gwariant ar waith iechyd a diogelwch yn y fynwent. Penderfynwyd cysylltu gydag ymgymerwyr a seiri maen lleol i weld os oes diddordeb i wneud gwaith o'r fath yn y fynwent.

b) Cafwyd cyfarfod rhwng y Clerc, Cadeirydd y pwyllgor a'r contractwr torri gwair er mwyn casglu gwybodaeth ar ddigwyddiad yn y fynwent ym mis Rhagfyr. Mae ei sylwadau wedi ei nodi.

c) Cynnal arbrawf gyda bin brown gwastraff gwyrdd (cyfnod o 2 fis)

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

8. **Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden ac Adnoddau**
Ymysg y materion a drafodwyd:

Cymeradwyo gwaith o godi ac adnewyddu ffens ar gae chwarae Pwll Moelyn a bod y gwaith wedi ei roi i gontractwr.

Adnabuwyd nod ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2024/2025 fel a ganlyn.

a) parhau â'r gystadleuaeth Nadolig.

b) Cario allan asesiad risg ar y caeau chwarae, yr offer, ac offer y gampfa.

c) Trefnu hyfforddiant ar y diffibriliwr.

d) Rhoi rheolau fyny yn y caeau chwarae.

e) Edrych fewn i'r posibilrwydd o greu mapiau digidol o'r ardal.

f) Ystyried darparu cysgodfan bws.

g) Ystyried offer ychwanegol i'r caeau chwarae.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**9. I gymeradwyo symud ymlaen i edrych fewn i'r posibilrwydd o ddarparu cysgodfan bws yn Llanrug**
Adroddwyd fod cais wedi dod i law yn gyntaf am gysgodfa bws ar safle Glyntwrog a bod un arall wedi dod ar gyfer safle bws ger yr Ysgol Gynradd. Adroddwyd ymhellach fod y Cynghorydd Beca Brown a'r Clerc wedi cyfarfod â swyddog o'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i weld beth oedd y posibilrwydd a pha fath o loches bws fyddai'n addas.

Nodwyd fod arian ddim yn caniatau gosod dwy loches bws eleni, felly byddai angen ymgynghori i weld ble mae'r galw mwyaf amdano, ac i godi un cyn diwedd Mawrth 2024 a'r llall yn y flwyddyn ariannol 2024/25.

Penderfynwyd:

a) Symud ymlaen a'r broses o osod un cysgodfan bws ar gyfer eleni.

b) Creu arolwg ar ble mae'r galw mwyaf ar hyn o bryd.

c) Y Clerc i hysbysu hyn ar dudalen Facebook, Gwefan y Cyngor ac unrhyw leoliad arall.

**10. Cais am Gymorth Ariannol - Y Sefydliad Coffa; Eco'r Wyddfa**
Penderfynwyd: Caniatau grantiau ar gyfer yr uchod fel y nodir isod

Y Sefydliad Coffa- £2750

Eco'r Wyddfa- £900.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod 5ed Fawrth, 2024

**Cofnodion 6ed Chwefror 2024**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

**Materion o'r Cofnodion**
**Cysgodfan Bws Dinorwig** – Yn dilyn archwiliad o'r cysgodfan mae'n ymddangos fod mwy o waith nac y meddyliwyd ar y gysgodfan. Mae'r clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir am asesiad diogelwch ynghydâ chysylltu am bris am y cyfan gan gontractwr.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Rhodd** – Mae'r Cyngor wedi derbyn rhodd ariannol o ystad y diweddar Mr Kenneth Harris. Brodor wedi ei eni a'i fagu yn Neiniolen oedd Mr Harris. Wedi symud o'r ardal i weithio, ac yna wedi penderfynnu dychwelyd yn ôl i'w gynefin i ymddeol. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn iddo, a dros y misoedd nesaf bydd y Cyngor yn ystyried beth fydd yn deilwng i wneud gyda'r arian.

**Cynllunio**
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
***C24/0133/18/LL – Tir tu cefn i Garej Tan y Foel***
*Codi sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau / offer amaethyddol a bwyd anifeiliaid – Dim sylwadau*
***C24/0103/18/LL – Parciau Rhos, Bethel***
*Codi adeilad amaethyddol Newydd ar gyfer storio peirianau – Dim Sylwadau*
***C24/0083/18/LL – Cartref Nyrsio Penisarwaun***
*Newid defnydd o gartref gofal i hostel gwasanaethol ar gyfer defnydd gwyliau ynghyd â llety byw warden cysylltiedig*
***C24/0102/18/DT – Isfryn, 3-4 Rhes Isaf, Rhiwlas***
*Gosod pwmp gwres ffynhonell aer yng nghefn yr eiddo*

**O Gwmpas y Bwrdd**
**Bryn Tirion, Penisarwaun** – Tyllau Mawr ar ffordd y stâd angen eu llenwi. Y clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.
**Ysgol Bethel** – Marciau paent ar y ffordd o flaen yr ysgol wedi gwisgo, a dim posib gweld y marciau. Y clerc i gysylltu â'r Cyngor er mwyn cael eu hail beintio.
**Mynwent Capel Bethel –** Bydd y clerc yn cysylltu â'r adran gynllunio i weld beth oedd y cytundeb ar y fynwent pan werthwyd y Capel.

# Rhai Dyfeisiadau o Gymru dros yr oesoedd - Rhan 1

Ers y 16eg ganrif hyd heddiw mae gwyddonwyr, peirianwyr a meddylwyr wedi gwneud eu rhan i newid ein byd. Dyma hanes rhai ohonynt.

**1557 Robert Recorde (1512-1558) Yr arwydd hafal =**
Brodor o Ddinbych-y-pysgod a thipyn o hen ben oedd Robert. Fe aeth i'r brifysgol yn Rhydychen a Chaergrawnt ac yna'n yn feddyg i Edward VI ac yn rheolwr y Bathdy Brenhinol. Ei gyfraniad mwyaf i fathemateg oedd yn ei lyfr *The Whetstone of Witte* yn 1557. Dyma ddywedodd yn y llyfr- '*er mwyn osgoi ailadrodd diflas y geiriau hyn* - ***yn hafal i*** *- gosodaf bâr o linellau paralel un hyd, oherwydd ni all unrhyw ddau beth fod yn fwy cyfartal.*'



Mae pawb yn awr yn defnyddio ei grynodeb, sef yr arwydd hafal **=** er bod ei hafliad o yn un hir iawn. Ef hefyd oedd y cyntaf i gyflwyno'r symbol 'adio' neu 'plws' (**+**)

**1706 - William Jones (1675-1749) π**
Un arall o symbolau mathemateg a ddyfeisiwyd gan William, mab i Siôn Siôr (John George Jones) ac Elizabeth Rowland o Lanfihangel Tre'r Beirdd, tua 4 milltir i'r gorllewin o Benllech ym Môn. Fo oedd y cyntaf i ddefnyddio'r symbol Groegaidd pei (π) mwy na thebyg am ei bod y llythyren gyntaf y gair Groeg περίμετρος - 'perimedr'. Mae'r π wedi sticio.



**1794 – Philip Vaughan o Gaerfyrddin - pêl-feryn**
Fo gafodd batent ar y pêl-feryn (*Ball Bearings*) dyfais wnaeth chwildroi pob olwyn ers hynny. Heb y peli bach hyn ni fyddai'r chwyldro diwydiannol wedi digwydd. Roedd ganddo ffowndri haearn yng Nghaerfyrddin a Chydweli.



**1836 - David Thomas (1794-1882) – ffwrnes chwyth aer poeth**
Brodor o Langatwg ger Nedd oedd David. Wrth weithio yng Ngwaith Yniscedwyn, yn Ystradgynlais yng Nghwm Tawe, dyfeisiodd y broses a fyddai'n datblygu'r Chwyldro Diwydiannol fel y gwnaeth Philip.

Ar 5 Chwefror 1837, defnyddiodd Thomas chwyth aer poeth i'w fwydo i ffwrnais fwyn haearn a glo anthrasit. Dyma'r math ffwrnesi sydd yn cael eu cau ym Mhort Talbot yn awr. Y canlyniad oedd dull hawdd i gynhyrchu haearn Anthrasit, a chwyldroi'r diwydiant. Aeth Thomas â'i broses i Pennsylvania, lle chwaraeodd ran bwysig yn niwydiant yr Unol Daleithiau, a daeth yn llywydd cyntaf Cymdeithas Meteleg America.

**1842 - Syr William Grove (1811-1896) - cell tanwydd**
Roedd yn farnwr ac yn wyddonydd. Rhagwelodd ddamcaniaeth gyffredinol cadwraeth ynni, ac roedd yn arloeswr technoleg celloedd tanwydd. Dyfeisiodd y cyfreithiwr a drodd yn wyddonydd a aned yn Abertawe y gell danwydd ym 1842, a oedd yn cyfuno hydrogen ac ocsigen i gynhyrchu trydan.

Yn y dyfodol, efallai y bydd pawb yn gyrru ceir sy'n cael eu pweru gan gelloedd tanwydd hydrogen – diolch i Syr William Grove (1811-1896).

**1861 - Syr Pryce Jones (1834-1920) - archebu drwy'r post**
*Entrepreneur* o Lanllwchaearn ger y Drenewydd a ffurfiodd y busnes archebu drwy'r post cyntaf, gan chwyldroi sut y gwerthwyd cynnyrch. Creodd gatalogau archebu drwy'r post cyntaf yn 1861 - oedd yn cynnwys nwyddau gwlân - am y tro cyntaf gallai cwsmeriaid archebu drwy'r post, a chafodd y nwyddau eu danfon ar y rheilffordd. Daeth Pryce-Jones yn hynod lwyddiannus yn y Deyrnas Unedig lle'r oedd ganddo dros 100,000 o gwsmeriaid, a oedd yn cynnwys Florence Nightingale a'r Frenhines Victoria. Dechreuodd ei fusnes dramor hefyd, gan werthu gwlanen Gymreig i weddill Ewrop, yr Unol Daleithiau ac yna Awstralia.

**1880 - Frances Elizabeth Hoggan (née Morgan; 1843 – 1927)- ymarferydd meddygol**
Meddyg Cymreig oedd Frances ac yn 1870 hi oedd y fenyw gyntaf o'r DU i dderbyn doethuriaeth mewn meddygaeth o unrhyw brifysgol yn Ewrop. Roedd hi'n ymarferydd meddygol, ymchwilydd a diwygiwr cymdeithasol arloesol - a'r meddyg benywaidd cyntaf i gael ei chofrestru yng Nghymru. Agorodd hi a'i gŵr y practis meddygol gŵr a gwraig gyntaf ym Mhrydain. Cafodd ei hanrhydeddu gyda 11eg Plac Porffor Cymru yn ei thref enedigol, Aberhonddu ym mis Mawrth 2023.

***Gwyndaf Hughes***





AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Garddio

**MAI**

Wrth deipio hwn (ym mis Ebrill) gorffennodd mis Mawrth efo eira ond ers hynny cawsom law, glaw a mwy o law, heb sôn am wyntoedd cryfion sy'n fy hel i'r tŷ yn lle allan i'r ardd… Llygedyn o obaith yw bod darogan y bydd mis Mai yn gynhesach ac yn sychach… Amser a ddengys.

Gan fod y Pasg yn gynnar a'r tywydd yn oer penderfynais beidio hyd yn oed a meddwl am blannu tatws cynnar ar ddydd Gwener Groglith. Ond gan fod hi'n 60 gradd Celsius yn y tŷ gwydr y Sadwrn canlynol, newidiais fy meddwl a phlannu 4 taten mewn potyn mawr ynddo. Mae'r gweddill wedi eu cadw yn y llofft gefn, (wedi egino), nes iddi gynhesu.

Erbyn mis Mai mi ddylech fedru plannu hadau yn syth i'r pridd, ond bydd angen gwylio'r rhagolygon tywydd rhag ofn bydd angen gwarchod unrhyw beth sy'n ddigon dewr i fentro allan o'r pridd. Plannais res fach o ruddygl (radish) ddechrau mis Ebrill. Pam? Yn ôl pob sôn, os ydynt yn egino maent yn dangos bod y pridd yn ddigon cynnes i hau neu blannu popeth arall! Newyddion da roeddent wedi egino erbyn 12fed o Ebrill, felly mi gaiff y tatws cynnar eu plannu ac ambell i beth arall - rhwng cawodydd! Mae ambell i blanhigyn yn dechrau cyrraedd drwy'r post ond er bod y cyfarwyddiadau'n deud eu bod yn barod i'w plannu allan, dwi'n dal her ar hyn o bryd. Mae hi'n oerach yma na'r iseldir felly tŷ gwydr dros dro ac allan cynted ag y bo modd.

Tasgau

1. Ym mis Mai dwi'n teimlo nad ydw i'n gwneud dim ond chwarae draffts efo planhigion blwyddol! Hynny yw eu symud i'r tŷ gwydr os yw'n debygol o fod yn oer dros nos a'u symud yn ôl allan yn ystod y dydd pan yw'n braf. Ond mae hynny'n well na cholli planhigion drud a brynwyd neu blanhigion rydach chi wedi eu magu'n annwyl ers wythnosau yn y tŷ neu'r tŷ gwydr.

2. Ar ôl plannu tatws ac iddynt egino, bydd angen eu priddo wrth i'r dail ddod i'r golwg. Priddo? Eu gorchuddio efo pridd neu gompost di-fawn, neu hyd yn oed doriadau gwair o'r lawnt, a bydd y gorchudd hwn hefyd yn eu gwarchod rhag unrhyw farrug.

3. Plannwch y blodau blwyddol yn ail hanner y mis, gan eu gwarchod, fel nodir uchod, fel bo'r angen.

4. Hyd yn oed ym mis Mai gall barrug effeithio ar flodau'r coed eirin a cheirios. Gall *horticultural fleece* eu gwarchod gyda'r nos ond cofiwch i'w wneud yn sownd gyda phegiau, rhag i'r gwynt ei godi a chofiwch ei dynnu yn y bore. Dwi'n croesi bysedd bydd y blodau ar ddwy goeden eirian brynais llynedd yn rhoi rhywfaint o ffrwyth eleni. Er mae'n debygol iawn y bydd yn rhaid i mi gwffio amdanyn nhw efo'r adar.

5. Gall garddio fod yn joban ddrud, fell mae'n bwysig gwarchod beth sydd eisoes yn tyfu yn eich gardd, fel nad oes raid prynu planhigion newydd o hyd ac o hyd. Peidiwch da chi a thorri dail eich cennin pedr na'u clymu. Torrwch y pennau ar bob cyfri ond gadewch i'r dail wywo, melynu a darfod yn naturiol, ond os fedrwch chi wir ddim aros yna arhoswch am o leiaf 6 wythnos. Bwydwch nhw efo bwyd hylifol sy'n llawn potasiwm neu gwasgarwch wrtaith megis gwaed asgwrn a blawd pysgod o'u cwmpas. Drwy wneud hynny dylech gael sioe dda o flodau eto yn 2025 ac felly arbed arian.

6. Chwalwch y chwyn cyn iddyn nhw ennill y dydd! Mae'r hof yn ddull effeithiol i'w gwaredu ond dydw i ddim yn cael hwyl ar ei defnyddio. Felly fforch fach a'u codi nhw felly fydd hi acw, er gwaethaf protestiadau fy mhengliniau.

7. Os gawn ni dywydd tebyg i dywydd mis Mai arferol cofiwch awyru'r tŷ gwydr, drwy agor y drws a'r ffenestri ar ddyddiau cynnes. Cofiwch ddyfrio'n gyson hefyd.

8. Bydd angen torri'r lawnt yn gyson ym mis Mai, oni bai eich bod am roi cyfle i natur a gadael i'r blodau gwyllt dyfu. Os nad ydach chi eisoes wedi bwydo'r lawnt ewch ati i wneud hynny rŵan!

Mis i blannu ydy mis Mai - llysiau o bob math ond cofiwch plannwch beth ydach chi'n hoffi eu bwyta. Does dim pwynt mewn plannu llond rhes o gabaets os nad ydach chi'n eu hoffi.

**Tatws:** Os am datws cynnar, ail gynnar a diweddar mi ddylen nhw fod eisoes wedi eu plannu yn y tir erbyn mis Mai.

**Moron:** Fel llynedd byddaf yn plannu amrywiaeth o foron. Chefais i fawr o hwyl arnynt llynedd oherwydd y tywydd yn anad dim. Felly eleni mi ydw i am drio plannu hadau ar dâp a hefyd rhai sydd wedi eu gorchuddio efo clai, fel '*pellets*'. Pam meddech chi? Wel fydd dim angen teneuo'r rhain ac felly mae gen i obaith am gnwd golew, gobeithio.



Coed eirin

**Pys:** Gallwch blannu pys cynnar unrhyw amser, hyd yn oed yn hwyr yn y tymor, ond o ddilyn cyngor fy hun, mae'n gas gen i bys, felly fydda i ddim yn plannu rhai!

**Ffa Ffrengig a Ffa Dringo**: Os yw pob addewid am farrug drosodd plannwch ffa o bob math. Os ydach chi'n bryderus, cadwch nhw mewn tŷ gwydr oer neu o dan ffrâm oer (*cold frame*) tan fydd dim perygl o gwbl o farrug. Fel arall plannwch rhai mewn potiau bach a'u plannu allan pan fydd pob perygl o farrug drosodd.

**Betys:** '*Boltardy*' yw un o'r rhai mwyaf dibynnol acw.

**Ysgall ddail yr Enfys (Rainbow Chard):** Mi ydw i wrth fy modd efo'r rhain, maent yn lliwgar, hawdd i'w tyfu o hadau a gorau oll yn flasus! Yn ôl pob sôn gallwch hyd yn oed eu cynnwys yn y border flodau. Cofiwch dydw i heb drio hynny hyd yn hyn. Os nad ydach chi am eu tyfu, cabaets amdani.



**Tomatos:** Dydw i ddim wedi medru prynu planhigion tomatos '*Sungold*' yn yr un ganolfan arddio ers dwy flynedd bellach. Felly mi ydw i wedi mynd ati i blannu hadau eleni. Yr unig anfantais o blannu paced o hadau, wrth gwrs, ydy bod llawer mwy o blanhigion yn tyfu nag y medrwch chi eu symud ymlaen i'r tŷ gwydr. Felly mi fydd ffrindiau a theulu yn 'mynd o'r ochr arall heibio' ym mis Mai rhag cael planhigyn tomato hyfryd nad ydyn nhw ei angen. Mi fydd hi'r un stori efo *chillies* a chiwcymbrau (*Socrates F1* eto eleni) hefyd debyg, a dydw i ddim hyd yn oed yn mynd i ddechrau son am flodau. Wrth gwrs mae planhigion '*Sungold*' i'w cael yn y canolfannau garddio eleni! Deud dim de…





Ar ddiwedd y dydd os na ddaw'r hadau mi fydd modd cael rhai fel anrhegion gan ffrindiau, cymdogion neu deulu ac os ydy hi'n mynd i'r pen? Fel arall mae'n esgus da i fynd am y ganolfan arddio a chael paned a theisen yn y fargen …

**Rhosyn Mynydd**

# Dramâu Wil Fôn - Rhan 2

[William Vaughan Jones, 1906 – 1978]

*Roedd Cymdeithas Lenyddol y Waunfawr yn ystod y 1940au a'r 50au yn hynod boblogaidd, gyda nifer o eitemau difyr wedi eu paratoi ar gyfer yr aelodau. Pob pythefnos ar nos Lun yn y gaeaf y cynhaliwyd Cymdeithas y Waun, ac yng Nghroesywaun ar y naill. I ddiweddu'r Gymdeithas yn y Waun, cynhelid swper cyllell a fforc, cyn i'r aelodau wedyn eistedd yn ôl i fwynhau sgets fer roedd William Vaughan Jones, Bron Eryri wedi ei darparu ar eu cyfer. Aelodau o'r gymdeithas fyddai'n cymryd rhan yn y sgets a byddai yna edrych ymlaen yn arw am y perfformiad.*

* * * * * * *

Yng nghystadleuaeth y Ddrama Hir, Eisteddfod Genedlaethol Llandybie 1944, gwobrwywyd ac enillwyd y fedal gan William Vaughan Jones am ei gynhyrchiad o'r ddrama hon. O glywed am ei lwyddiant, roedd rhai o'r criw wedi eu syfrdanu, ond yn fwy na dim wedi eu siomi. Beth oedd Wil Fôn wedi ei wneud tybed? Wedi mynd i Landybie heb ddweud gair wrth neb! "Yr hen beth gwael iddo fo, mynd heb gymryd arno wrth neb! - rêl Wil Fôn! Pam na fasa fo wedi deud rwbath wrtha ni?"

Yn dilyn llwyddiant Llandybie, perfformiwyd 'Brwyn ar Gomin' yn y festri yma yn y Waun, a hynny am dair noson yn olynol â phobl yn tyrru yma i'w gweld. Yn fuan wedi hynny daeth sawl gwahoddiad i'r criw fynd i'w pherfformio mewn nifer o lefydd. Ond mynnai Wil Fôn nad oedd yn fodlon i'r ddrama fynd ar daith gan yn un peth, roedd y set efail y gof yn ei lle ar lwyfan y festri a buasai'r drafferth o'i datgysylltu â'i chludo i wahanol ardaloedd yn golygu mwy o waith ac amser. Yn ogystal â hyn, buasai'r gost o hurio'r dilladau gan John Pritchard Bethesda hefyd wedi ychwanegu at y costau. Er hynny roedd rhai o'r cast yn benderfynol ac yn erfyn ar Wil i newid ei feddwl. Un ohonynt oedd Gwladys Lewis, ac meddai hithau gan droi arno, "Yli di Wil Fôn! Rydan ni wedi mynd i'r draffarth i ddysgu dy ddrama di, ac os na gawn ni fynd o gwmpas i'w pherfformio, waeth i ti heb â sgwennu drama arall ar ein cyfer ni!"

Ac felly, bu'n rhaid i Wil Fôn ildio a bodloni i'r ddrama fynd ar daith.

**Cast 'Brwyn ar Gomin.'**

Siôn Emwnt (Hen feddyg gwlad) Bob Morris Jones.

Wil Emwnt (Mab Siôn Emwnt) R. Gwynn Davies.

Gwen (Gwraig Wil Emwnt) Mwynwen Jones.

Harri Solomon (crydd) James Llewelyn Williams. ('Jim Post.')

Mansli Solomon (Gwraig Harri) Winnie Lloyd Jones.

Huw Huws (Gof) Emlyn Davies.

Rolant Dafydd, John Leathley Jones.

John Evans (Twrnai) John Awstin Jones.

Capten Joseff Williams, Thomas Henry Williams. ('Tom Garreg Fawr.')

Gaenor Gruffydd, Gwladys Lewis.

Act 1 – Gefail y gof Croesywaun.

Act 2 – Bryn Gwylan. Pythefnos yn ddiweddarach.

Act 3 – Tŷ Newydd. Cartref Wil Emwnt.

Yn dilyn 'Brwyn ar Gomin,' ysgrifennodd Wil Fôn nifer o ddramâu newydd ar gyfer y criw. Rhai fel, 'Y Merlyn Main,' 'Cyw o frid,' 'Dwylo Blewog,' 'Y Saeth Coch,' ac 'Y Nogio ym Mhenygarn.' Cofiaf amdano yn galw heibio'r tŷ un noson a dweud wrthyf, "Practis drama nos Fawrth am saith o'r gloch yn y festri. Dw'i isho ti ddod yno i bromptio!"

Nid gofyn ond dweud! Minnau bryd hynny newydd gyrraedd fy mhen-blwydd yn 18 oed a heb fawr o syniad beth oedd 'promptio!' Wel am job ddiflas! Mae'n dda fod Mary Lloyd yno hefyd - achos fyddwn i ddim wedi dilyn y plot o gwbl. Roedd fy meddwl ym mhob man ond ar y plot.

Ymhen blwyddyn galwodd Wil Fôn heibio drachefn a'r tro yma yn taro copi ar y bwrdd. "Practis drama nos Fawrth - mae 'na ran i ti ynddi!"

Eto, nid gofyn ond dweud. Minnau'n teimlo'n ddigon milain ar y pryd gan na fuasai wedi gofyn os oeddwn eisiau bod yn y ddrama â'i peidio. Wedi'r cwbl roedd y criw yn mynd allan ran amlaf ar nos Fercher ac ambell i nos Sadwrn. Nosweithiau mynd i'r dre ac i'r pictiwrs oedd y rhain. Ond erbyn hyn, rwy'n falch fy mod wedi cael y cyfle i fynd gyda nhw, a chael llawer iawn o hwyl yn eu cwmni.

Fel arfer, cegin fferm Wmffra ac Elin Prisiart oedd y set a byddai yna lawer o driciau yn cael ei chwarae bryd hynny. Cofiaf yn ystod un perfformiad fel roedd fy nhad wedi mynd i dŷ Wmffra i gael torri ei wallt. Wmffra yn taenu lliain gwyn drosto a mynd ati i roi trim efo'i siswrn. Mwyaf sydyn roedd clympiau o wallt du yn disgyn yn gawodydd ar y lliain a nhad mewn dychryn gan feddwl sut olwg fuasai arno. Roedd y gynulleidfa hefyd wedi dechrau sibrwd ymysg ei gilydd, "Wannwl! Mae o'n torri'i wallt o go iawn!"

Beth roedd Bob Morris wedi ei wneud ond mynd i'r beudy yn y prynhawn ac wedi shafio cynffon un o'r gwartheg a tharo'r blew yn ei boced. Dyna felly beth oedd y gwallt du ar y lliain gwyn!

Wrth gwrs doedd Bob heb ddweud gair wrth neb!

**William Vaughan Jones.**
**1906 – 1978**

* * * * * * *

*Cewch fwynhau darllen rhan olaf hanes Cymdeithas Lenyddol y Waunfawr yn perfformio Dramau Wil Fôn yn rhifyn mis Mehefin Eco'r Wyddfa.*














## DINORWIG

**Tymor y gwanwyn**
Cyrhaeddodd y gwanwyn, ond un go wahanol i'r hyn roeddem yn ei ddisgwyl. Bu gwyntoedd cryfion yn sgubo drwy'r fro, a daeth penllanw'r gwyntoedd gyda dyfodiad Storm Kathleen fu'n hyrddio'i gwylltineb arnom i fyny yma yn Ninorwig am dri diwrnod. Buom yn ffodus na chafwyd difrod difrifol. Does ryfedd fod y gog wedi cadw draw hyd yma. Does ond gobeithio y daw tymor yr haf a gwell tywydd i ni.

**Gwasanaethau'r Sul yn Nhŷ Elidir, Deiniolen.**
Dalier sylw ar yr amseroedd, gan fod y gwasanaethau yn cychwyn ar adegau gwahanol ar y pnawniau Sul.
28ain Ebrill, 3.30pm - Y Parch John Pritchard, Llanberis.
5ed Mai, 2.00pm - Mr Arfon Wyn, Ynys Môn.
12fed Mai, 5.00pm - Y Parch Huw Pritchard, Llangefni.
19eg Mai, 3.30pm - Y Parch Gwenda Richards, Caernarfon.
26ain Mai, 3.30pm - Y Parch John Pritchard, Llanberis.
2il Mehefin, 5.00pm - Mr Robert Morris, Nantlle.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef anhwylder neu salwch, boed gartref neu yn yr ysbyty. Brysiwch wella.

## NANT PERIS

**Eglwys St Peris**
Gwasanaethau mis Mai:
5ed Mai 5, 9:30am - Boreol Weddi
Nos Iau, 9fed Mai, 7.00pm - Offeren Dydd Iau'r Dyrchafael, gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun
12fed Mai, 4.00pm - Gwasanaeth Teulu, nid oes gwasanaeth yn y bore.
19eg Mai - Gwasanaeth sefydlu a chroesawu'r Parch Ganon Naomi Starkey fel ficer ac arweinydd newydd Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri. NODER - Mae amser y gwasanaeth wedi newid i 3.00pm o'r gloch, yn Eglwys Sant Padarn, nid 11.00am fel yr hysbyswyd eisoes. Mae croeso cynnes i bawb ddod i'r gwasanaeth a bydd lluniaeth i ddilyn, dyma'r unig wasanaeth ar y Sul yma.
26ain Mai, 9:30am - Boreol Weddi.
Hefyd bydd gwasanaeth o Foreol Weddi bob dydd Mawrth am 11.00am.








# Cwyno

Rydan ni'n prysur ddod yn gymuned o bobl sy'n cwyno. Mae pawb, wrth reswm, yn cwyno am y tywydd, ac yn ddiweddar rydan ni wedi cael achos i wneud hynny wrth i ni gael mwy na'n siâr o dywydd gwlyb eithriadol a gwyntoedd brawychus. Ond math arall o gwyno oedd gen i dan sylw; cwyno am ymwelwyr. Fy nghwyn fawr i ydi, fod Yr Wyddfa mor agos a bod cymaint am gyrraedd y copa sy'n uwch na'r un mynydd arall yng Nghymru a Lloegr, a pham, yn enw Rhita Gawr, fod rhaid rhoi Mount o flaen enw Saesneg y mynydd?

Cafwyd Pasg eithriadol o brysur; mae'r Pasg yn dod fel y daw'r gwanwyn a'r dydd yn ymestyn, ac fel arfer rhyw arwyddion o dywydd teg yn annog pobl i droi allan. Mae gen i gof cysgu un Pasg am orig, wedi brechdan a paned, yn yr haul ar ben Pillar, un o fynyddoedd Bro'r Llynnoedd yng ngogledd orllewin Lloegr. Bythefnos ar ôl hynny roeddwn i mewn eira mawr heb fod yn bell o Bumlumon yn y canolbarth.

Ansicr a dweud y lleia ydi diwedd Mawrth, yn aml yn rhuo fel llew wrth ein gadael ni, ac aml gawodydd Ebrill weithiau'n gwlychu at groen. Eleni yn y dyddiau'n arwain at y Pasg roedd hi'n wlyb, ac oherwydd hynny fe fethwyd ag agor rhai caeau lle mae ambell i berchennog yn gwneud ceiniog go-lew ar gorn ymwelwyr sy'n chwilio am le i barcio mor agos ac y medran nhw at y mynydd. Felly rhwng hynny a'r modurwyr hynny sydd fel tae nhw ar egwyddor yn gwrthod talu, mi oedd hi'n draed moch ar hyd y lle 'ma.

Ym marn rhai mae moch yn byhafio'n well na rhai o'r ymwelwyr, yn sicr yn ôl aelodau o grŵp *Pentref Taclus - Llanberis* does dim amheuaeth nad ydi hynny yn wir yn ôl tystiolaeth yr aelodau ar fore Sul a'r lluniau a gyhoeddir. Yn sgil hynny mae 'na gwyno mawr wedi bod ar y cyfryngau cymdeithasol: cwyno am barcio anghyfrifol ac anghyfreithiol, am sbwriel, am ddiffyg cwrteisi ac am agwedd y cyngor sir ac awdurdod y parc cenedlaethol.

Rwan o lle'r ydw i'n eistedd mae bysus niferus yn rhedeg yn ôl a blaen yn aml i Gorffwysfa, i ben Bwlch Llanberis, ac ymlaen wedyn i Feddgelert neu Fetws-y-coed. Yn rhy aml, er bod eithriadau ar y Sadwrn a'r Sul, does na fawr o deithwyr arnyn nhw, ond maen nhw yna yn gyson a thocyn yn rhesymol ei bris.

Llongyfarchiadau i Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Eryri am wneud rhywbeth adeiladol, ond mae gwaith i'w wneud eto i berswadio mwy o bobl i barcio lle mae na lefydd parcio, yn hytrach na dal i ddod yn y gobaith o gael lle i'r car yn rhywle. Fedra i ddim meddwl am well gwasanaeth na Sherpa'r Wyddfa mewn unrhyw le poblogaidd arall. Y piti mawr arall ydi'r waliau yn y Bwlch sydd yn fylchau i gyd, oes na rywun am ateb i'r her honno?

Y broblem ydi'r Wyddfa, biti ei bod hi mor uchel ac yn denu pobl fel gwenyn at bot mêl, ond dyna ni tasa hi ddim yma fe fyddai rhywun arall yn siŵr o gwyno, a chofiwch mae'r diwydiant ymwelwyr yn cyflogi pobl. Faint ohonyn nhw sy'n lleol ac mewn swyddi gwerth chweil sy'n talu'n dda sy'n beth arall!

**DEI TOMOS**

# Pwy oedd Dewi Gwyrfai a Glan Gwyrfai?



**Gŵyl Cadair Dinorwig 1908 – Tybed oedd Dewi Gwyrfai yn bresennol yn hon, flwyddyn cyn ennill ar y toddaid?**

Yn 1909 cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llundain, ac yn dilyn arholiadau'r Orsedd, derbyniwyd nifer yn aelodau. Un o'r rhai a lwyddodd yn yr arholiadau, ac a dderbyniwyd i Urdd Bardd oedd David Owen o'r Waunfawr, a'i enw barddol oedd Dewi Gwyrfai. Prin yw'r wybodaeth amdano, ond yr oedd yn hyddysg yn y mesurau caeth, ble bynnag y dysgodd hwy. Roedd ei frawd, Robert Owen, yn englynwr, ond hyd y gwn, nid oedd yn arddel enw barddol. Meibion oeddent i John a Margaret Owen a oedd yn byw yn Werglodd Goch, Waunfawr yn 1881. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach roedd y teulu wedi symud i Glan Gwyrfai, Waunfawr. Roedd y tad yn enedigol o'r Waunfawr, ond y fam o Lanwnda. Yn Llanwnda y ganed Robert, ond yn y Waunfawr y ganed gweddill y plant, sef David, Ellin, Margaret a Dorothy.

Ym mis Mai 1905 ac yntau bron yn ddeg ar hugain mlwydd oed, cafodd Robert Owen ddamwain ddifrifol yn y Chwarel Fawr, Cefn Du. Disgynnodd darn o graig arno a maluriwyd ei glun yn ddifrifol. Ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach cafodd y tad ddamwain yn Chwarel Cefn Du. Ar ddechrau Rhagfyr y flwyddyn honno adroddir i'w fraich dde *"fynd i afael y bwrdd llifio"* a chafodd niwed garw.

Mae rhywfaint o waith barddonol y brodyr ar gael. Priododd eu chwaer, Margaret yn 1909 gyda John H. Owen, Parc, Waunfawr, a chyfarchwyd y ddau ar eu priodas gan y brodyr Robert a David. Dyma englyn Robert Owen:

*Maggie o lawn edmygedd – ddiwallodd*
*Ewyllys ei delwedd;*
*Dwg y gwir hi'n deg ei gwedd*
*I frodir ei delfrydedd.*

Mae dau englyn gan David Owen, ac y mae'n arddel ei enw barddol – Dewi Gwyrfai.

*A sain ber dyner dannau – ti fynaist*
*Y fun i dy rwydau;*
*Denu'r un o dan yr iau*
*O'i gwirfodd o Glan Gwyrfai.*

*Gwr hwyliog a gar heulwen – dirionaf*
*Gyda'i fwynaf feinwen*
*Ni wela'n awr fynd yn hen*
*E' ddewisodd ei asen.*

Yn yr un flwyddyn bu Dewi Gwyrfai yn fuddugol yng Ngŵyl Cadair Dinorwig a gynhaliwyd ym Mrynrefail. Ef enillodd am gyfansoddi toddaid ar y testun 'Y Creigiwr'.

*Hoenus wron dirif ei ddoniau*
*Ac arwr enwog y grugog greigiau,*
*El i ddannedd y cribog lechweddau*
*Yn sain ergydion a swn rhwygiadau*
*Hygar ewig y rhiwiau – yw'r Creigiwr*
*A diau noddwr i doi aneddau.*

Yn 1916 ysgrifennodd nifer o benillion ar achlysur priodas Robert Jones, Eilian Terrace ac Edith Williams, Cerrig y rhyd, y ddau o Fetws Garmon, a hynny yng Nghapel Engedi, Caernarfon.

Gwelais hefyd un cyfeiriad ato'n cyfrannu deuswllt tuag at gronfa Cofeb Hedd Wyn yn 1918.

Roedd y wybodaeth am Glan Gwyrfai yn brinach fyth. Mae hyd yn oed yn bosib fod dau berson gwahanol yn defnyddio'r enw barddol. Gallai ei enw bedydd fod yn John Deiniol Jones, ond does dim sicrwydd o hynny chwaith. Ar wahân i'r Glan Gwyrfai oedd yn enw tŷ yn y Waunfawr, roedd tai o'r un enw yn Rhyd-ddu ac yn Llanwnda hefyd, a gallai'r bardd fod wedi byw yn unrhyw le ar hyd glannau'r afon honno. Yn 1863 cyhoeddwyd llythyr gan Glan Gwyrfai yn y *North Wales Chronicle* yn holi am gyfrifon ariannol Eisteddfod Caernarfon a gynhaliwyd flwyddyn ynghynt. Mae'n ymddangos fod pwyllgor yr eisteddfod wedi brolio fod rhai cannoedd o bunnau o elw wedi deillio o'r eisteddfod, a dadleuai Glan Gwyrfai y dylai'r cyhoedd gael gwybod faint o elw a wnaed, a pha ddefnydd a wnaethpwyd o'r elw hwnnw. Mewn rhifyn diweddarach cafwyd llythyr tebyg yn holi am "elw" Eisteddfod Conwy, a'r si fod rhywfaint ohonno wedi ei ddefnyddio i anrhegu aelodau'r pwyllgor merched, a'r ensyniad mai gwragedd a merched prif swyddogion yr eisteddfod oedd aelodau'r pwyllgor hwnnw!

Rhaid disgwyl am ddeng mlynedd ar hugain cyn bod sôn pellach am Glan Gwyrfai – a hynny yn Llundain. Daw'r cyfeiriad ym mhapur *Y Celt* yn 1895, sy'n adrodd hanes y *'St David's Church Eisteddfod'*. Glan Gwyrfai fu'n fuddugol, gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniad, am benillion coffa i Elis Wyn o Wyrfai. Ceir cyfeiriad at y bardd buddugol fel *"Mr Jones, Kensington."* Ac y mae chwilio am Jones yn Llundain yn waeth na chwilio am nodwydd mewn tâs wair.

Yn 1898 mae Glan Gwyrfai, Waunfawr (dyna'r unig dro i mi weld cyfeiriad ato gydag enw'r pentref ynghlwm) yn cyhoeddi penillion i gydymdeimlo â'r Parch Eynon Hughes, Llanelli ar farwolaeth ei wraig ifanc yn Llanarth, Ceredigion. Ond beth oedd cysylltiad y bardd o'r Waunfawr a gweinidog o Lanelli a marwolaeth yn Sir Aberteifi ? Tybed a oedd yn byw yn y Waunfawr, Aberystwyth erbyn hynny, ac wedi symud yno o Kensington?

Llawer mwy o ymholiadau nac o atebion mae gen i ofn, ond byddwn yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth am y cymeriadau hyn. Oes unrhyw un o ardal Waunfawr a Betws Garmon yn gwybod eu hanes?

Os oes gennych ymholiad am unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r "Eco", yna cysylltwch – anfonwch i Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA, neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

## Y Gornel Ddarllen



Llyfrau Diwrnod y Llyfr oedd ein 'gwerthwyr' gorau ni ym mis Mawrth. Mae dros 1000 o blant lleol wedi cael llyfr yn rhodd gennym ni, neu £1 oddi ar lyfr eleni gyda'r tocyn a ddosbarthwyd drwy'r ysgolion, a braf oedd gweld bod y llyfrau Cymraeg yn fwy poblogaidd 'na'r llyfrau Saesneg.

Dyma 10 ucha llyfrau oedolion mis Mawrth. Rydym wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau gyda sawl un o'r awduron, ac awdur lleol i ardal yr Eco sy'n dod yn rhif 1, sef Gari Wyn, perchennog Ceir Cymru, sy'n mynd ar drywydd hanes cysylltiadau Cymru a Lerpwl mewn cyfrol ddifyr tu hwnt.

1. Cerdded Lerpwl y Cymry
2. Kubrick
3. Gororion
4. Peacemakers
5. Cymru Gudd
6. Helfa
7. Griffith Davies
8. Small Things Like These
9. Tomorrow and tomorrow and tomorrow
10. Feral Monster

# Nodiadau Natur



Beth welais i yng nghanol mis Ebrill? Tinwen y garn (*wheatear*). Mi glywais hi cyn i mi ei gweld a dyma un o'n mudwyr cynharaf i gyrraedd yma ac yn arwydd bod y gwanwyn ar ei ffordd. Roedd i'w gweld, fel y bydd fel arfer, ar wal garreg mewn cae, sy'n gyfagos i'r tŷ. A gwyddwn i sicrwydd, wrth ei gwylio'n hedfan a gweld fflach o wyn wrth fôn ei chynffon (tin) mai dyna oedd hi!



Adar yw'r ffocws y mis hwn.

**Gog** *(Cuculu canorus)*

Y cyntaf dan sylw yw'r gog, sy'n gaeafu yn rhannau trofannol Affrica ac Asia. Mi ydan ni'n lwcus iawn o'i chlywed bob blwyddyn ac yn fwy lwcus byth o'i gweld ar y waliau cerrig yn y caeau cyfagos. Mi fuon ni hyd yn oed yn ddigon lwcus o weld nid un ond pum gog mewn coeden wrth y tŷ un flwyddyn!

Mae'n aderyn eithaf mawr tua 33cm (neu 13 modfedd) o hyd ac mae'n pwyso oddeutu 100 i 140g. Mae'n edrach yn debyg iawn i gudyll neu'r Gwalch Glas pan yw'n hedfan. Nid yw'r adenydd yn codi'n uwch na'i chorff wrth iddi hedfan ac yn aml iawn mi welwch chi adar bach yn ei dilyn ac yn ceisio ymosod arni.

Bydd y rhan fwyaf ohonom yn clywed cân y ceiliog lawer amlach nag y gwelwch yr aderyn, ac mi fentrai nad oes llawer o bobl fyddai'n adnabod cân fyrlymllyd yr iâr. Mae'r ddau nodyn - Gw-cw! Gw-cw! yn sicr yn esbonio'r enw Saesneg - *cuckoo* - arni.

Dyma gliw i pryd allwch chi ei chlywed hi:

*'Ni chan y gog lwydlas ond Ebrill a Mai*
*A hanner Mehefin chi wyddoch bob rhai*
*Ac wedyn eheda dros donnau'r môr*
*I wledydd pellennig i mofyn ei stôr.'*

Wrth ysgrifennu hwn ar noson oer, wyntog a glawog ym mis Ebrill dwi'n dal i ddisgwyl i'w chlywed hi ar lethrau Moel Rhiwen.

Mae'n bwyta pryfaid a lindys ac wrth gwrs nid yw'n gwneud nyth! Mae'n dodwy un ŵy ar y tro mewn nythod adar eraill, ac mae'n ddigon clyfar i fedru dodwy ŵy sy'n debyg o ran lliw a marciau i wyau'r adar sydd wedi mynd i drafferth i greu nyth. Ymysg y rhai sy'n cael eu targedu yw Corhedydd y Waun, Robin Goch a Llwyd y Berth. I wneud pethau'n waeth, unwaith mae'r cyw gog wedi deor mae'r cyw'n dringo i ochr y nyth ac yn gwthio'r wyau/cywion eraill allan, i sicrhau mae ef fydd yn cael y bwyd i gyd gan ei rieni maeth!

**Gwennol** *(Hirundo rustica)*

'Un wennol ni wna wanwyn', meddai'r hen ddywediad. Er gwaethaf hynny mae hi'n dal i roi gwefr i mi bob blwyddyn o weld yr un gyntaf ac wedyn gweld ei chyfeillion yn cyrraedd y llecyn hwn o Gymru fach.

Mae'n aderyn o tua 18cm (neu tua 7 modfedd) o hyd ac mae'n pwyso oddeutu 16 i 25g ac fel y gog yn gaeafu yn Affrica, sef taith oddeutu 8 000 o filltiroedd. Maent yn teithio oddeutu 200 milltir y dydd, sy'n golygu y gallant gyrraedd eu cyrchfan mewn tua 40 diwrnod! Gan eu bod yn bwydo ar bryfetach a phryfaid gallant fwydo wrth hedfan. Dyna wrth gwrs pam eu bod yn teithio'r holl filltiroedd - gan nad oes fawr o



bryfetach iddynt i'w bwyta ym misoedd oer y gaeaf .

Ffaith ddiddorol - gall y wennol gysgu wrth hedfan!

Mae rhai pobl yn credu bod modd darogan y tywydd drwy edrych ar ehediad y gwenoliaid. Os ydynt yn hedfan yn uchel yn yr awyr mi fydd hi'n braf, ond os ydynt yn hedfan yn isel mi fydd hi'n dywydd gwlyb.

Mae'n nythu mewn hen dai ac ysguboriau (mae'r rhai acw yn nythu mewn hen adfail, nepell o'r tŷ) ac yn aml i'w gweld yn gorffwys ar wifrau ffon neu drydan.

Anfarwolwyd yr arfer hwn yng ngherdd T Gwynn Jones, 'Gwenoliaid':

*'Eisteddant yn rhes ar wifren y telegraff*
*Mae rhywbeth yn galw - ……*
*Yfory, gorffwysant*
*Yn dawel yn heulwen y De!'*

A dyna ni, yn union fel y gerdd, pan fyddai'n eu gweld yn ymgasglu'n niferoedd mawr ar y gwifrau, dwi'n gwybod bod hynny'n arwydd y byddan nhw'n dychwelyd i Affrica bell yn fuan wedyn a bydd yr haf yn dirwyn i ben.




**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

**Ffôn - 01286-870253**
**enquiries@theroyalvictoria.co.uk**



**Tyddyn Teg**
**Bwyd - Tir - Pobl**

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**

**Dewch i'n siop!**

- **Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**

Cysylltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# O Wcrain i Lanrug – nodau'r delyn yn ddiolch am noddfa rhag rhyfel

Berliner Philharmonic, Paris Philharmonic, Teatro La Fenice, Yr Academi Gerdd Frenhinol... a rwan, Sefydliad Coffa Llanrug!

Ia, yma yn Llanrug fydd neuadd gyngerdd nesaf y delynores ryngwladol Veronika Lemishenko.

Mae hi'n aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr Cyngres Delyn y Byd, yn brif delynores Theatr Genedlaethol Croateg yn Osijek, Croatia ac yn delynores wadd i Gerddorfa Symffoni Genedlaethol Wcráin.

Syniad Veronika oedd i gynnal cyngerdd yma yn Llanrug, er mwyn diolch i'r gymuned am y croeso y bu i'w theulu ei dderbyn ar ôl iddynt ffoi yma o'r rhyfel yn Wcrain. Mae teulu Veronika wedi byw yn ddedwydd yn yr ardal ers dianc rhag y gyflafan adra ac roedd Veronika a hwythau yn awyddus i fynegi eu



gwerthfawrogiad.

Mae nifer o gyngherddau wedi bod yn cael eu cynnal yn ddiweddar yn y Sefydliad Coffa, wedi eu trefnu gan y Cynghorydd Beca Brown drwy nawdd Mantell Gwynedd, ac mae hi'n falch iawn o dderbyn cynnig hael Veronika i gynnal digwyddiad yn y pentref.

"Pan rydych chi'n gweld y lleoliadau ble mae Veronika wedi chwarae a gweld ystod ei phrofiad cerddorol mae'n amlwg ein bod ni'n tu hwnt o freintiedig i gael ei chroesawu hi i'r Sefydliad," meddai'r cynghorydd. "Mae rhywun yn boenus ymwybodol wrth gwrs o'r erchyllterau sydd yn digwydd yn ôl ym mamwlad Veronika ac mae'n eironig rhywsut mai oherwydd hynny rydan ni'n cael clywed amdani ac yn cael ei chlywed i'n chwarae. Ond mae'n destun balchder hefyd bod teulu Veronika wedi cael croeso a chefnogaeth yma yn Llanrug a bod yr ardal wedi bod yn noddfa iddynt. Hoffwn i ddiolch o galon iddi am gynnig ein diddanu ni, a dwi'n sicr y cawn ni brynhawn i'w gofio."

Ers mis Chwefror 2022 mae Veronika yn gyd-sylfaenydd y 'Veronika Lemishenko Charity Foundation' gyda'r holl arian a gaiff ei godi yn mynd i gefnogi pobl Wcrain.

Mi fydd cyfle i gyfrannu at yr elusen yn ystod y cyngerdd ac os oes unrhywun yn dymuno gwneud cyfraniad ond yn methu dod i'r cyngerdd mae croeso iddynt gysylltu gyda'r cynghorydd neu gyda swyddogion y Sefydliad Coffa.

Bydd y cyngerdd yn digwydd Ddydd Sadwrn 27ain o Ebrill am 12.00 o'r gloch, gyda phaned a chacen i ddilyn.

# Torcalon i Gymru

Diwedd mis Mawrth roedd Cymru yn ceisio hawlio eu lle yng nghystadleuaeth Ewro 2024 yn yr Almaen. Gan na allodd tîm Rob Page gyrraedd dau safle uchaf grŵp D roedd yn rhaid mynd trwy'r gemau ail-gyfle.

Y Ffindir oedd y gwrthwynebwyr cyntaf yng Nghaerdydd ar yr 21ain o Fawrth. Fe gychwynodd Cymru ar dân gyda David Brooks yn sgorio o fewn y tri munud cyntaf! Cychwyn perffaith. Digon distaw oedd yr hanner cyntaf ar ôl y gôl, gyda Cymru yn cael sawl cyfle ond mi oedd y Ffindir yn cael cyfnodau hir ar y bêl. Mae posib dadlau mai nhw oedd y tîm gorau yn ystod mwyafrif yr hanner cyntaf. Daeth ail gôl i Gymru wrth i Neco Williams daro cic rydd arbennig i gefn y rhwyd. Fe ddaeth ergyd fach cyn hanner amser wrth i Pukki, un o sêr mwyaf y Ffindir, daro gôl yn ôl i'r tîm oddi cartref. Doedd hi ddim drosodd eto.

Fe ddechreuodd yr ail hanner yn union fel yr hanner cyntaf. Roedd Cymru wedi sgorio o fewn dau funud! Brennan Johnson oedd y sgoriwr y tro hwn. Roedd nerfau'r Cymry wedi setlo ychydig ar ôl nerfusrwydd diwedd yr hanner cyntaf. Cymru yn amlwg oedd y tîm cryfaf ac er methu sawl cyfle (gan gynnwys gôl yn cael ei gwrthod gan Ben Davies oherwydd camsefyll fe enillodd Cymru yn gyfforddus.

Ychwanegwyd at y goliau ym munudau olaf y gêm wrth i Daniel James gael gôl hwyr ar achlysur ei hanner canfed cap i Gymru. Hefyd yn cyrraedd y garreg filltir arbennig honno yn y gêm oedd Ethan Ampadu. Ef yw'r chwaraewr ieuengaf i gyrraedd hanner cant o gapiau i Gymru erioed, yn 23 mlwydd oed.

Hanner y gwaith oedd wedi ei wneud gan



fod gêm arall i'w hennill os am gyrraedd yr Almaen. Gwlad Pwyl fyddai y gwrthwynebwyr yn ffeinal y gemau ail-gyfle ar ôl iddyn nhw drechu Estonia o bump gôl i un. Yn lwcus i Gymru, ni oedd efo'r fantais o chwarae gartref. Roedd hon am fod yn dipyn anoddach na gêm y Ffindir.

Croesawyd Gwlad Pwyl i Gaerdydd ar y 26ain o Fawrth. Roedd Cymru 90 munud i ffwrdd (o leiaf) at gyrraedd pencampwriaeth yr Ewros tair gwaith yn olynnol. Rhywbeth na fyddem wedi ei ddychmygu rai blynyddoedd yn ôl!

Roedd hi'n gêm bryderus o'r cychwyn cyntaf gyda'r naill dîm na'r llall yn cael llawer o hwyl pan oedd yn dod at y gôl! Roedd cyfleon yn brin iawn. Fe darodd Cymru y bêl i gefn y rhwyd ond fel gêm Y Ffindir, fe gafodd gôl Ben Davies wedi ei gwrthod oherwydd camsefyll unwaith eto! Poenus. Fe gafodd cefnogwyr Cymru ychydig o eiliadau i ddathlu ond ni barodd yn hir iawn. Yr un hen stori oedd hi drwy gydol y gêm gyda'r naill dîm na'r llall yn herio y gôl-geidwaid. Roedd Robert Lewandowski, seren Barcelona, yn rheoli canol cae i Wlad Pwyl ac yn cael gormod o ryddid ar adegau. Serch hynny ni gafodd Danny Ward llawer i wneud yn y gôl. Fe ddaeth cyfle i Wlad Pwyl gyda'r cloc yn cyrraedd 90 munud ond fe darodd Lewandowski y bêl heibio'r gôl. Ochenaid o ryddhad (am y tro).


Roedd 90 munud wedi mynd heibio a dim gôl. Doedd dim byd yn gwahaniaethu y ddau dîm. Amser ychwanegol amdani felly a Chymru erioed wedi bod yn y sefyllfa yma o'r blaen mewn gêm gystadleuol! Digon tebyg i'r 90 munud oedd amser ychwanegol wrth i Gymru na Gwlad Pwyl fethu sgorio. Roedd Cymru dan bwysau ond doedd y tîm oddi cartref ddim yn gallu manteisio a ddim wedi gallu creu cyfle clir i sgorio. I ychwanegu at nerfusrwydd Cymru fe gafodd Chris Mepham ail gerdyn melyn a'i anfon oddi ar y cae reit ar ddiwedd yr amser ychwanegol.

Mi fyddai'r gêm hon yn cael ei setlo gyda chiciau o'r smotyn (eto yn brofiad newydd i Gymru). Roedd Hen Wlad fy Nhadau yn cael ei floeddio gan y cefnogwyr mewn ymdrech i roi un hwb olaf i'r garfan. Yn wynebu y Canton, Lewandowski oedd y cyntaf. Gôl, wrth gwrs. Ein capten Ben Davies oedd y cyntaf i Gymru ac yntau yn sgorio gan gadw'r pwysau ar Wlad Pwyl. Roedd y ciciau o'r smotyn yn wych gan y ddau dîm gyda pawb yn taro cefn y rhwyd. Roedd hi'n 5-4 i Wlad Pwyl a Daniel James oedd nesaf i Gymru. Fe gerddodd draw at y smotyn gyda'r bêl yn ei law yn edrych yn nerfus dros ben. Roedd pwysau Cymru ar ei ysgwyddau. Arbediad gan Szczesny. Torcalon i Gymru. Gorfoledd i Wlad Pwyl.

Am ffordd greulon i golli. Dim taith draw i'r Almaen felly i Gymru. Siomedig. Fe roddodd y bechgyn bopeth ond doedd hi ddim i fod. Yn anffodus i Daniel James roedd yn rhaid i rywun fethu ond dwi'n siwr y bydd yn dod nôl o hyn yn gryfach.

Y cwestiwn mawr nawr yw a'i Rob Page yw'r dyn cywir i arwain Cymru ymlaen neu ydi hi'n amser am newid?

**Mared Rhys Jones**



# Dal i redeg...

***Rasys Mynydd***

Mae tymor y rasys mynydd wedi cychwyn o ddifrif bellach, a rhai rasys pencampwriaeth eisoes wedi eu cynnal. Ddiwedd mis Mawrth ym Mannau Brycheiniog cafodd ras gyntaf Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Cymru ei chynnal ar Dor y Foel. Teithiodd Maggie Oliver o Ddinorwig yr holl ffordd i'r de a dychwelyd yn fuddugol, wedi ennill y dosbarth i ferched dros 75 oed.



***Ras Fron4***

Ddechrau mis Ebrill cynhaliwyd un o rasys mynydd cyntaf y gogledd, sef y Fron4; ras sy'n galw am ymweld â chopaon Moel Tryfan a'r Mynydd Mawr ddwywaith. Gareth Wyn Hughes o Lanberis oedd yn fuddugol, gan dorri'r record i redwyr dros 40 oed. (Cyd-ddigwyddiad oedd y ffaith fod deilydd y record honno yn cystadlu yn yr adran dros 50 oed, gan dorri'r record honno hefyd). Mae'r llun yn dangos gymaint ar y blaen oedd Gareth, gyda lôn wag rhyngddo â'r ail yn y ras. Yn yr un ras, Maggie Oliver oedd yr enillydd dros 75 oed, ond y tro hwn, roedd Alwyn, ei gŵr, hefyd yn rhedeg, ac ef oedd yr enillydd yn ras y dynion dros 75 oed.

***Rasys Nos Fawrth***

Y llynedd bu'n rhaid gohirio Ras Moel Tryfan, sef y ras gyntaf, draddodiadol yng Nghyfres Rasys Nos Fawrth, oherwydd tywydd milain. Doedd hi ddim yn argoeli'n dda iawn eleni chwaith, gyda'r glaw yn pistyllio a'r copa dan niwl trwchus o fewn rhyw hanner awr i ddechrau'r ras. Ond cliriodd yn syfrdanol o sydyn, a chychwynodd 152 o redwyr i fyny'r hen inclên tua'r chwarel cyn dringo i'r copa. Powlio i lawr drwy'r hen domenni llechi wedyn, cyn suddo hyd at eu fferau mewn mwd ac ail-ddringo llethrau deheuol y Foel cyn disgyn i lôn drol weddol sych i orffen. Roedd carfan dda o ieuenctid ymhlith y cant a hanner, sy'n argoeli'n dda am ddyfodol rasio mynydd yn yr ardal. Roedd yr un mor wir yn rasys y plant, gydag ambell un mor ifanc â saith oed yn cystadlu. Roedd y cyrsiau iddynt hwy yn fyrrach, wrth gwrs, ond yr un mor heriol a chysidro'r amgylchiadau dan draed.


Dychwelyd i'r Fron oedd hi y nos Fawrth ganlynol hefyd ar gyfer Ras Mynydd y Cilgwyn, a'r tywydd y tro hwn yn llawer mwy caredig. Roedd y ras hefyd wedi ei chlustnodi fel rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru, ac oherwydd y niferoedd yn cystadlu, bu'n rhaid gohirio'r cychwyn am hanner awr i roi cyfle i bawb gofrestru. Tybed pa bryd y gwelwyd dros 200 o bobl ar sgwâr Y Fron ddiwethaf? Oedd, roedd dros 200 o redwyr yn cystadlu ar Fynydd y Cilgwyn, heb sôn am y rhai oedd yn rhedeg rasys y plant, a heb anghofio y rhieni a'r cefnogwyr.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd rasys Moel Lus (Dwygyfylchi) a'r Tair Gallt (Penmaenmawr) wedi bod, a rasys Pen Dinas (Nant Peris), Y Garn (Rhyd-ddu), Y Gogarth (Llandudno) a Moel y Gest (Morfa Bychan) i ddilyn.

***Marathon arall***



Os oedd dros 200 o gystadleuwyr yn swnio'n llawer yn Y Fron ar nos Fawrth, doedd yn ddim i'w gymharu â'r miloedd a deithiodd i Baris ar Sul cyntaf Ebrill i gystadlu mewn marathon. Ac yn eu plith roedd Hugh a Fiona Morgan o Fethel. Llongyfarchiadau i'r ddau ar gyflawni her arall.



# Dion yn Curo drwy Gymru!

Cynhaliwyd Pencampwriaethau Cenedlaethol Nofio Cymru yn Abertawe ddiwedd mis Mawrth. Ymysg y cystadleuwyr roedd Dion Edwards o Lanrug a ddaeth adref yn bencampwr Cymru!

Enillodd Dion dair ras dan 18 oed, sef:

200 medr Pili-pala
100 medr Pili-pala
50 medr Pili-pala

Mae Dion yn ymarfer gyda thîm Nofio Cymru ers tro, mae'n aelod o Glwb Nofio Caernarfon ac yn ddisgybl ym Mlwyddyn 12 Ysgol Brynrefail.

Llongyfarchiadau mawr iawn i ti Dion a phob lwc i ti at y dyfodol!



# Ewros i Dan 17 Cymru

Roedd nos Fawrth 26ain o Fawrth yn siom fawr i gefnogwyr Cymru yn Stadiwm Dinas Caerdydd wedi i Wlad Pŵyl ennill ar giciau o'r smotyn yn y Gemau ail gyfle. Dim taith i'r Almaen ar gyfer yr Ewros i Gymru.

Ond yn gynharach yn y diwrnod roedd tîm o Gymru wedi llwyddo i ennill eu lle mewn rowndiau terfynol Ewros yr haf yma sef y Tîm dan 17.

Mis Tachwedd yn y Rowndiau Rhagbrofol dan 17 gorffennodd Cymru ar frig eu grwp wedi iddynt ennill yn erbyn Gwlad Belg a Gibraltar gan fynd ymlaen i'r Rowndiau Elite.

Taith i Romania oedd hi fis Mawrth ar gyfer y Rownd Elite. Roedd Cymru mewn grŵp gyda'r tîm cartref Rwmania, Sweden a Bwlgaria.

Gêm yn erbyn y tîm cartref oedd gêm agoriadol Cymru a buddugoliaeth o 2-1 i Gymru. Y goliau gan Elliott Miles o Norwich City ac Oliver Bostock o West Brom. Cychwyn da i'r grŵp. Sweden oedd gwrthwynebwyr Cymru yn yr ail gêm, a'r ddau dîm wedi ennill eu gêm agoriadol. Aeth Sweden 2 gôl ar y blaen cyn i Ronan Kpakio o Gaerdydd rwydo i ddod a Chymru yn ôl i'r gêm, ond methu a chanfod y rhwyd am yr ail dro a Sweden yn ennill o 2-1 ac yn sicrhau ei lle yn y rowndiau terfynol.

Felly i'r gêm olaf yn erbyn Bwlgaria. Buddugoliaeth a byddai Cymru yn ymuno â Sweden yn y rowndiau terfynol yn Cyprus. Di sgôr ar yr hanner. Ond yn fuan yn yr ail hanner rhwydodd Oliver Bostock i roi Cymru ar y blaen cyn i Elliott Myles ddyblu mantais y dreigiau ifanc. Er i Fwlgaria rhwydo yn hwyr yn y gêm, Cymru yn dal ei gafael ac yn ennill o 2-1. Cymru yn gorffen yn ail yn y grŵp a hynny yn hawlio eu lle yn Rowndiau Terfynol Ewro dan 17. Dyma fydd yr ail dro yn olynol i Gymru lwyddo i gyrraedd Ewro dan 17, wedi'r tîm y llynedd gyrraedd y Rowndiau Terfynol yn Hwngari, a hynny am y tro cyntaf.

Taith i Cyprus fydd hi i'r tîm dan 17 eleni ddiwedd Mai. Fydd Cymru yn Grŵp B gan gychwyn eu hymgyrch 21ain o Fai yn erbyn Denmarc. Bydd yr ail gêm dridiau yn ddiweddarach yn erbyn Awstria, gan gloi'r grŵp yn erbyn Croatia ar y 27ain o Fai.

Felly bydd Ewros i Gymru'r haf yma wedi'r cwbl. Pob lwc i'r garfan dan 17 a'u rheolwr, Craig Knight, draw yng Nghyprus.

**Elgan Rhys Jones**

# Cap i Gymru

Rhoddwyd sylw mewn rhifynnau blaenorol o'r *Eco* i'r chwaraewr rygbi addawol o Benisarwaun, sef Jac Petch-Jones. Ar ddyddiad cau y newyddion ar gyfer y rhifyn hwn, daeth y wybodaeth fod Jac yn ennill ei gap cyntaf i Gymru ar ddydd Sadwrn, 13eg o Ebrill, a hynny yn safle'r bachwr. Roedd y gêm i'w chwarae yn Ystrad Mynach, de Cymru, a hynny yn erbyn tîm dan 19 oed Iwerddon. Byddai carfan Cymru yn aros gyda'i gilydd wedyn yng Nghaerdydd, ac ar y dydd Mawrth byddai'r tîm i chwarae yn erbyn yr Eidal ar y Sadwrn dilynol yn cael ei ddewis. Gobeithio y cawn fwy o hanes Jac a'r gemau hyn yn rhifyn nesaf yr *Eco*. Llongyfarchiadau iddo ar ei lwyddiant.



ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >